

Rhif: WG41756



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Papur Gwyn

Ailgydbwysu gofal a chymorth

Ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well.

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2021
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 06 Ebrill 2021

Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am sylwadau ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i wireddu'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r cynigion yn cynnwys gosod fframwaith cenedlaethol clir i gefnogi gwasanaethau i gael eu cynllunio'n rhanbarthol a'u darparu'n lleol, ac ar gyfer cryfhau trefniadau partneriaeth.

Bydd eich ymatebion yn cael eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

Sut i ymateb

Dylid defnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein ac anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu yn y post i'r cyfeiriad isod. Rhaid i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad gyrraedd erbyn 6 Ebrill 2021 fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae modd gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Dyfodol ac Integreiddio
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: socialcarefutures@gov.wales

Ar gael yn Saesneg hefyd yn:

<https://gov.wales/consultations>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y comisiynir trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludo data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire, SK9 5AF

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	6
Crynodeb Gweithredol	8
Cyflwyniad	11
Trosolwg	11
Y weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol	11
Cynnydd o ran cyflawni'r weledigaeth	14
Y ddadl dros newid	15
Newid yn y boblogaeth ac angen	15
Yr her ariannu	17
Y farchnad gofal a chymorth	18
Comisiynu a chymhlethdod	19
Cynaliadwyedd y gweithlu	21
Plant	23
Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio	24
Atal	26
Gwersi o rannau eraill o'r DU	27
Cyflawni'r weledigaeth	29
Dyluniad	29
Ailganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal	29
Ailgyfeirio arferion comisiynu	31
Datblygiad dulliau integreiddio	32
Ei roi ar waith	34
Sut gallwn ni wneud hynny?	34
Ailgydbwyso'r fframwaith cenedlaethol	35
Cryfhau trefniadaeth ranbarthol	36
Effaith ar gomisiynu gofal a chymorth gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ..	38
Atodiad 1: Crynodeb o'r effeithiau	39
Atodiad 2: Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad	42

Rhagair gan y Gweinidog

Drwy gydol pandemig Covid-19 mae'r sector gofal cymdeithasol wedi delio â lefelau digyffelyb o heriau, gan gefnogi llawer o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae arloesi lleol wedi datblygu'n gyflym ac mae gwasanaethau wedi cydweithio. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn bersonol i bob aelod o'r gweithlu gofal cymdeithasol am ei gyfraniad parhaus i'n cymunedau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo o hyd i'n gweledigaeth o sicrhau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac i ofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y deng mlynedd diwethaf, bron, ers ein Papur Gwyn cyntaf ar ofal cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu 2011, sef dechrau ein taith drawsnewidiol. Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁽¹⁾ ei chynhyrchu ar y cyd â'r sector a phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, ac mae wedi ail-lunio natur y sector. Yn debyg i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁽²⁾, mae'n canolbwyntio ar lesiant, ethos o atal ac ymyrryd yn fuan a'r rheidrwydd i gynhyrchu ar y cyd a gweithio ar draws sectorau. Fe wnaeth *Cymru Iachach – ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* hefyd dorri tir newydd drwy nodi mewn cynllun cenedlaethol un system ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Felly, mae'r Papur Gwyn hwn yn adeiladu ar sylfeini cadarn. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi rhoi'r system gofal cymdeithasol o dan straen enfawr ac wedi tynnu sylw at ba mor fregus yw'r sector. Mae blynyddoedd o gyni ledled y DU wedi gadael eu hól ar gyllid cyhoeddus, ac mae cyfnod heriol arall o'n blaenau. Dyna pam bod yn rhaid i ni gyflymu ein gwaith trawsnewid i wneud gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy.

Er mwyn bod yn addas ar gyfer y dyfodol, rydym yn cynnig newidiadau deddfwriaethol sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol i wireddu ein gweledigaeth. Ein bwriad ni yw datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol a fydd yn ail-gydbwyso gofal a chymorth. Bydd llai o gymhlethdodau yn ei sgil a bydd yn sicrhau mai ansawdd yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar lwyddiant yn y farchnad gofal cymdeithasol. Gwyddom fod parhad y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar gyflawni canlyniadau pobl, ac felly y bydd cysylltiad cryf rhwng y fframwaith cenedlaethol a'r camau i gefnogi'r gweithlu.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwmo i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac rydym yn awyddus i'w cefnogi i adeiladu ar eu llwyddiannau i gryfhau integreiddio ledled Cymru. Byddwn yn gwella Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy ddarparu set fwy manwl o adnoddau iddynt eu defnyddio i gynllunio a darparu gofal a chymorth yn well lle mae gweithredu ar y cyd yn hanfodol er mwyn gwella llesiant pobl.


Wrth amlinellu'r cynigion hyn, hoffwn dawelu meddyliau cynrychiolwyr etholedig lleol fy mod wedi ymrwmo'n gryf i atebolrwydd democrataidd lleol, ac felly i benderfyniadau am wasanaethau lleol gael eu gwneud mor agos ag sy'n bosibl at bobl lleol. Wrth wneud y datganiad clir hwnnw, nid yw'n anghyson tynnu sylw at gymhlethdod y tirlun comisiynu gofal cymdeithasol, nac at fanteision cynllunio a chyflwyno mewn modd integredig yn rhanbarthol.

¹ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) (2014 dccc 4)

² [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) (2015 dccc 2)

Rydym yn cydnabod bod pwysau sylweddol ar y sector o ganlyniad i'r pandemig, ond mae'n bwysig edrych i'r dyfodol a sut gallwn ni ailgodi'n gryfach. Nid yw'r cynigion hyn yn ymwneud â newidiadau strwythurol byrdymor, maent yn ymwneud ag atebion hirdymor i wella ein system a sicrhau gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru sy'n cefnogi pobl i sicrhau llesiant. Credwn y bydd ein cynigion yn darparu sylfaen well ar gyfer gwella'r sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys drwy gefnogi'r gweithlu.

Croesawaf eich barn am ein cynigion, ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer gofal cymdeithasol gwell yng Nghymru.

A handwritten signature in black ink that reads "Julie Morgan". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie Morgan, AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Adeg cyhoeddi'r Papur Gwyn hwn, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu heriau enfawr bob dydd oherwydd Covid-19. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at ba mor fregus yw'r sector. Felly, mae sut gallwn ni, fel sector gofal cymdeithasol, ailgodi'n gryfach yn ei sgil, yn gyfle ac yn rheidrydd.

Mae gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁽³⁾, sy'n ddeddfwriaeth allweddol, gefnogaeth unfrydol ar draws y sector. Mae *Cymru Iachach*⁴ yn dal i fod yn ganolog i'n gweledigaeth o system iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae ein holl waith fel llywodraeth yn cael ei lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Fodd bynnag, nid yw'r disgrifiad yn natganiad llesiant y gwasanaethau cymdeithasol, o'r canlyniadau y dylai pobl eu profi gyda chefnogaeth gwasanaethau gofal a chymorth, yn union yr un fath â phrofiad pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae amrywiaeth o ffactorau amgylcheddol a ffactorau system yn cynnig esboniadau ar gyfer hyn.

Dadansoddi

Mae angen cynyddol am ofal a chymorth ym mhob grŵp o'r boblogaeth. Mae hyn yn ymwneud â'r her sylfaenol fwyaf sef cyllid y sector. Mae blynyddoedd o gyni wedi gadael eu hôl ar gyllid cyhoeddus, ac mae effaith Covid-19 yn creu cyfnod heriol arall. Mae Grŵp Rhyngweinidogol Llywodraeth Cymru ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yn edrych ar opsiynau ar gyfer darparu adnoddau yn y dyfodol i'r sector gofal cymdeithasol i oedolion fel rhan o'r pecyn cyllid sydd ar gael ar gyfer addewid gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd angen bodloni goblygiadau ariannol yn y dyfodol o fewn y setliadau a bennir yn y dyfodol gan rowndiau cyllideb y dyfodol, a bydd pob llywodraeth yn wynebu penderfyniadau anodd yn wyneb rhagolygon cyllideb tynn iawn.

Cymhlethdod yw prif nodwedd y tirlun gofal a chymorth. Darperir gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy farchnad o dros 1,000 o ddarparwyr, yn bennaf o'r sector annibynnol, sy'n aml yn cystadlu am yr un contractau. Caiff gofal a chymorth i bobl eu comisiynu drwy awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol neu'n uniongyrchol ganddynt eu hunain. Cânt eu cyllido drwy lywodraeth genedlaethol a lleol a thrwy ffioedd a thaliadau y gall pobl eu talu i'w hawdurdod lleol neu'n uniongyrchol i ddarparwr gofal.

Yng nghyd-destun system ddarniog, mae'n hanfodol bod partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd. Mae tystiolaeth o arfer da yma, ond yn yr un modd mae pryderon ynghylch cynnydd integreiddio. Nid oes llawer o le i sefydliadau gwerth cymdeithasol, a fawr iawn o ddata sy'n cael eu rhannu fel sail ar gyfer dysgu ar draws y system. Dyma'r system sydd gennym, yn hytrach na'r system a fyddai'n cael ei chynllunio drwy ddewis.

Dyluniad

³ [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) (2016 dccc 2)

⁴ [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#)

Mae tri maes allweddol yn dod i'r amlwg yn sgil y ddadl dros newid, lle mae angen gweithredu'n benodol i sicrhau gwelliant:

- ail-ganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal - symud oddi wrth y pris ac at ansawdd a gwerth;
- ailgyfeirio arferion comisiynu – tuag at reoli'r farchnad a chanolbwyntio ar ganlyniadau; a
- datblygiad dulliau integreiddio – symleiddio cynllunio a darparu ar y cyd.

Drwy weithredu yn y tri maes hyn, mae'r Papur Gwyn hwn yn ceisio ail-gydbwyso'r farchnad gofal a chymorth ar sail fframwaith cenedlaethol clir lle caiff gwasanaethau eu trefnu'n rhanbarthol a'u darparu'n lleol. Wrth wneud hynny ein nod yw ailgydbwyso gofal cymdeithasol fel nad oes gorddibyniaeth ar y sector preifat, na monopoli i'r cyfeiriad arall. Mae'r papur Gwyn hwn yn diffinio 'ailgydbwyso' yn fras fel cyfres o ddisgrifiadau o'r newid yr ydym am ei weld yn y system.

Ystyr ailgydbwyso yw...

...Symud oddi wrth gymhlethdod. Tuag at symleiddio.

Symud oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.

Symud oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad.

Symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau.

Symud oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth fwy effeithiol...

... er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Wrth lunio'r cynigion hyn, rydym wedi defnyddio fframweithiau arweiniol sy'n pwysleisio persbectif hirdymor, pwysigrwydd cydweithio a chwilio am gyfleoedd i leihau cymhlethdod.

Trosolwg o'r cynigion

Bydd fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i blant ac oedolion yn cael ei ddatblygu i ail-gydbwyso'r farchnad gyda'r nod o wella ansawdd. Bydd y fframwaith cenedlaethol yn pennu methodolegau ffioedd, yn datblygu prosesau comisiynu mwy safonol, ac yn gwella tryloywder perfformiad gwasanaethau. Rhaid i fethodolegau ffioedd fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu ffactorau gan gynnwys maint a lleoliad ac adnoddau ar gyfer darparwyr ar wahanol gamau yn eu cylch busnes eu hunain. Gall y fframwaith fod yn llwyfan ar gyfer gweithredu argymhellion y Fforwm Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol mewn perthynas â gwell telerau ac amodau ar draws y sector yng Nghymru.

Dylid sefydlu 'swyddfa genedlaethol' ar gyfer gofal cymdeithasol i ddatblygu a chyflwyno'r fframwaith cenedlaethol. Gall hyn fod naill ai drwy ddatblygu swyddogaeth o fewn y llywodraeth, neu drwy sefydlu corff bach hyd braich yn Llywodraeth Cymru. Yn y

ddau opsiwn, bydd trefniadau llywodraethu yn sicrhau ymgysylltiad llawn ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y sector annibynnol a phartneriaid allweddol eraill.

Bydd y swyddfa genedlaethol yn cadw golwg gyffredinol ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gofal a chymorth, ac yn sail ar gyfer sbarduno mentrau polisi cenedlaethol. Bydd yn atgyfnerthu gweithgarwch rhai fforymau cenedlaethol, gan gynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu sy'n gyfrifol am helpu i wella gwasanaethau yng Nghymru. Ar wahân i hynny, bydd cyfeiriad cenedlaethol yn cael ei gryfhau drwy sefydlu llais proffesiynol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol ar lefel genedlaethol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd swyddogaethau comisiynu awdurdodau lleol yn parhau i fod yn atebol yn lleol. Yn seiliedig ar y cynigion yn y papur hwn, bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn dyfodol yn arfer y swyddogaethau hyn yn unol â'r fframwaith cenedlaethol, gan sicrhau bod ei fethodolegau'n cael eu defnyddio'n llawn ac yn deg.

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael set fwy manwl o adnoddau i'w defnyddio i gyflawni eu nodau craidd o asesu a chynllunio ar y cyd ar gyfer anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn ymateb i adolygiadau allanol, ac i'r adborth gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch sut gall ffurf bresennol y trefniadau partneriaeth hyn weithiau gyfyngu ar eu gallu i weithredu ar y cyd ac mewn modd pendant. Yn benodol, rydym yn cynnig y dylid sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol. Byddai disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u hail-lunio, sy'n gyfrifol am gyflogi staff a dal cyllidebau, gomisiynu cryn dipyn o wasanaethau ar y cyd a llunio'r farchnad yn fwy cyfarwyddol.

Bydd y trefniadau cynllunio ac adrodd presennol yn cael eu cyfnerthu, a bydd y trefniadau hyn yn sail well i ddangos atebolrwydd i bartneriaid lleol a rhanbarthol, yn ogystal â Gweinidogion Cymru o ran unrhyw adnoddau cenedlaethol a ddyrennir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Casgliad

Bydd y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn yn cryfhau trefniadau'r sector gofal cymdeithasol ac yn gwella ansawdd gofal. Maent yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r gwendidau yn y farchnad ar gyfer gofal a chymorth, a chyfyngiadau mewn strwythurau partneriaeth cyfredol.

Bydd y cynigion yn lleihau cymhlethdod, yn cynyddu cynaliadwyedd ac yn cryfhau integreiddio. Byddant yn arwain at fwy o dryloywder yn hytrach na chuddio atebolrwydd lleol.

Gall y newidiadau a gynigir ail-gydbwyso'r darpariaeth gofal a chymorth yn sylweddol. Mae'r ffocws ar sut caiff y system ei threfnu, ond y diben clir yw gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol drwy wella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Cyflwyniad

Trosolwg

Mae gofal cymdeithasol yn helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, fel pobl hŷn, plant sydd ag anghenion corfforol neu gymdeithasol, pobl anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gallai gofal a chymorth olygu cefnogi pobl i gyfathrebu, amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod, helpu i gynnal neu ddatblygu perthynas deuluol neu berthynas bersonol arwyddocaol arall neu helpu gyda bywyd bob dydd (ee mynd i mewn ac allan o'r gwely, coginio a golchi dillad).

Rhaid galluogi pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i ddefnyddio eu cryfderau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, a rhaid iddynt gael gwir lais a rheolaeth dros eu bywydau, er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad llawn at y gymuned a'i defnyddio i gael cymorth. Mae atal wrth wraidd y dull hwn o weithredu ac er mwyn atal, rhaid cael dull gweithredu system gyfan gyda phwyslais ar wella, llesiant, cydgynhyrchu, atal ac ymyrryd yn fuan, a phwyslais ar ddefnyddio technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg, mewn modd effeithiol.

Mae trefnu, paratoi a darparu gofal cymdeithasol yn gymhleth. Dyna oedd yr achos cyn Covid-19, ond mae'r pandemig wedi ail-gadarnhau pa mor fregus yw rhai rhannau o'r sector, er enghraifft ar draws gofal cartref a gofal preswyl. Mae hefyd wedi dangos sut gallwn fynd i'r afael â chymhlethdod diangen gyda'n gilydd er mwyn canolbwyntio mwy ar ansawdd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cynnig bod angen cryfhau ac aildrefnu'r trefniadau presennol ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn ymateb i'r amrywiaeth o heriau sy'n wynebu'r sector, ac er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Yr heriau hyn yw'r sail resymegol sylfaenol i'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn, a fydd yn darparu sylfaen well ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol.

Y weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol

Mae bron i ddeng mlynedd ers i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru '*Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*' nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal cymdeithasol yng Nghymru a nodi dechrau taith drawsnewidiol. Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 eu cydgynhyrchu gyda'r sector a'r bobl yng Nghymru.

Mae'r ddeddfwriaeth bwysig hon yn ymgorffori gweledigaeth ac egwyddorion craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol, gan adeiladu ar gryfderau pobl i'w cefnogi i sicrhau llesiant ac mae hyn yn dal yn iawn ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. I bobl hŷn, mae hyn yn golygu byw bywydau hirach, iachach a hapusach a pharhau i fod yn egniol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. I oedolion, mae hyn yn golygu gallu arfer rheolaeth dros eu bywydau a chymryd rhan mewn gwaith a gweithgareddau eraill sy'n bwysig iddynt. I blant a theuluoedd, mae hyn yn golygu cael eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, lle bo hynny er budd y plentyn.

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn cynnwys diffiniad o lesiant. Ystyr "Llesiant" o ran unigolyn, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol—

- a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- c) addysg, hyfforddiant a hamdden;
- d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- h) addasrwydd llety preswyl.

O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

- a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
- b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

O ran oedolyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

- a) rheolaeth ar fywyd pob dydd;
- b) cymryd rhan mewn gwaith.

Datblygwyd y diffiniad hwn ymhellach drwy ddatganiad llesiant y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt⁵. Mae'r datganiad yn nodi beth mae llesiant yn ei olygu i bobl. Mae hyn yn ymwneud â rhoi llais cryfach i bobl a mwy o reolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn.

Nodir egwyddorion craidd y weledigaeth fel dyletswyddau cyffredinol yn adran 6 y Ddeddf, sef:

- i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, canfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny;
- rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn;
- rhoi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, yn enwedig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi ei gyfyngu am unrhyw reswm;
- rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith).

Yn benodol mewn perthynas ag oedolion, y rhain yw:

- rhoi sylw i bwysigrwydd dechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn;
- pwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo'n bosibl.

Yn benodol mewn perthynas â phlant, y rhain yw:

- rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn,

⁵ [Datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth](#)

- pan fo'r plentyn o dan 16 oed, canfod barn, dymuniadau a theimladau'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny, i'r graddau y mae gwneud hynny a) yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, a (b) yn rhesymol ymarferol.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i hawliau ac mae wedi rhoi Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn Adran 7 y Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnwys dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru⁶ wedi nodi bod heneiddio a byw mewn cymdeithas sy'n heneiddio yn rhywbeth y bydd y rhan fwyaf ohonom yn ei brofi. Felly, mae gwella'r profiad hwn o fudd i bob un ohonom, a rhaid i ni barhau i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu, nawr ac yn y dyfodol. Rhaid i hawliau pobl fod wrth galon gweithredu a phenderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn ein cartrefi gofal, yn y system gofal cymdeithasol ehangach ac yn ein cymunedau⁷. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i greu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at fynd yn hŷn. Nod y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio⁸ yw creu Cymru sydd o blaid pobl hŷn sy'n cynnal hawliau pobl hŷn ac yn hyrwyddo undod rhwng y cenedlaethau.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant mewn cyfraith ddomestig drwy gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn ymgorffori ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r protocolau dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae prif ddyletswydd y Mesur, o dan adran 1, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod yn rhaid i bob plentyn – heb wahaniaethu o unrhyw fath – gael ei hawliau dynol wedi'u hamddiffyn. Rhaid i unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant y mae angen gofal a chymorth arnynt, plant sy'n ofalwyr y mae angen cymorth arnynt ac unigolion y cyflawnir swyddogaethau mewn perthynas â hwy o dan Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf, am y tro cyntaf, yn rhoi yr un hawliau i ofalwyr â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt drwy ymestyn eu hawl i gael asesiad am gymorth. Mae'r ddyletswydd i asesu yn gymwys beth bynnag yw barn yr awdurdod am lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar y gofalwr neu'r adnoddau ariannol sydd ganddo neu ganddi neu adnoddau ariannol yr unigolyn sydd angen gofal. Rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu ac yn fodlon darparu'r gofal a pharhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni o ran ei hunan ac i ba raddau y gallai cymorth, gwasanaethau ataliol, neu ddarparu gwybodaeth,

⁶ [Strategaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2019-22 – Gwneud Cymru'r lle gorau yn y byd i heneiddio](#)

⁷ [Datganiad ar y Cyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru](#)

⁸ [Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn](#)

cyngor neu gymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr⁹.

Cynnydd o ran cyflawni'r weledigaeth

Mae ymddygiad y rheini sy'n darparu gwasanaethau yn effeithio ar ansawdd profiad pobl o ofal a chymorth, ee, cynhesrwydd, caredigrwydd, empathi, parch, diffuantrwydd a chariad¹⁰. Ym mis Medi 2020, roedd 75 y cant o'r bobl a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru¹¹ yn cytuno bod y gofal a'r cymorth a gawsant wedi gwella ansawdd eu bywyd.

Ochr yn ochr â'r darlun cadarnhaol hwn, rydym yn gwybod bod y cynnydd o ran cyflawni gweledigaeth y Ddeddf yn gallu bod yn anghyson. Er enghraifft, dywedodd yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal¹² fod rhai plant, pobl ifanc a theuluoedd yn dweud nad ydynt yn cael cynnig y cymorth cynnar y maent am ei gael i atal problemau rhag gwaethygu. Dangosodd astudiaeth ddiweddar o farn dinasyddion¹³ fod llawer o ymatebwyr yn teimlo bod angen iddynt frwydro am wasanaethau, a bod disgwyl y byddant yn derbyn ac yn cyd-fynd â pha gymorth bynnag a roddir iddynt. Roedd gofalwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael llawer mwy o brofiadau 'negyddol' neu 'negyddol iawn' na'r rheini sy'n derbyn gofal a chymorth.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn dal yn gymharol newydd, ac mae ei gweithredu'n cynnwys symud at ffordd newydd o weithio i gefnogi pobl i sicrhau llesiant yn parhau i fod yn daith. Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru o ganfyddiadau'r Ddeddf yn awgrymu bod ethos ac egwyddorion y Ddeddf yn cael eu cefnogi a'u bod wedi arwain at newid go iawn mewn gofal cymdeithasol, hyd yn oed er gwaethaf cyni, ond ystyrir mai proses barhaus yw hyn o hyd. O ystyried yr amrywiadau ym mhrofiadau pobl, yr heriau sy'n wynebu'r sector, fel y disgrifir yn adran y ddadl dros newid yn y papur hwn, ac wrth feddwl am effaith pandemig Covid-19, mae nawr yn amser pwysig i bwysio a mesur a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

⁹ [Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr](#)

¹⁰ [Blog The King's Fund - Quality in social care: we need an ear for stories as well as an eye for data](#)

¹¹ [Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau](#)

¹² [Care Crisis Review- A sector-led Review of the rise in applications for care orders and the number of children in care](#)

¹³ [Mesur y Mynydd - ein canfyddiadau](#)

Y ddadl dros newid

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu partneriaeth rhwng academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru a chynghorwyr arbenigol i gyflawni'r gwaith o'r Ddeddf. Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod y ddeddfwriaeth wedi hyrwyddo newid, ac wedi datblygu perthynas awdurdodau lleol gyda phartneriaid allweddol ym maes iechyd, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol. Bedair blynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, mae cryn dystiolaeth o'r gwahaniaeth a wnaed. Fodd bynnag, thema allweddol a oedd yn rhedeg drwy gydol y gwerthusiad oedd y cyfeiriad at y gwahaniaeth sydd eto i'w wneud a'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweld fel taith barhaus o newid¹⁴.

Mae'r adran ganlynol yn adeiladu ar y dadansoddiad blaenorol drwy nodi'r heriau pwysig sy'n wynebu gofal a chymorth yng Nghymru yn y cyfnod sydd o'n blaenau. Mae'r 'ddadl dros newid' yn darparu sail ar gyfer y cynigion yn adrannau olaf y Papur Gwyn hwn.

Newid yn y boblogaeth ac angen

Rhagwelir y bydd cyfran y bobl dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu mwy na 53 y cant erbyn 2040. Yn yr un modd, bydd y rhai dros 65 oed yn codi i un o bob pedwar o'r boblogaeth cyn 2050. Er na ellir cysylltu'r galw am ofal ffurfiol yn y dyfodol â phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'r twf a ragwelir yn nifer y bobl hŷn sydd ag anghenion gofal cymhleth (gan gynnwys dementia difrifol) yn debygol iawn o arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal ffurfiol – er enghraifft, rhagwelir y bydd nifer yr oedolion hŷn sy'n byw gyda dementia difrifol yn dyblu i 53,700 erbyn 2040¹⁵.

Mae'r sector wedi tueddu i ystyried bod rhai cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi bod yn amharod i ymgysylltu â gofal cymdeithasol yn y gorffennol gan fod rhai teuluoedd wedi dewis cefnogi aelodau hŷn o'r teulu eu hunain. Fodd bynnag, dywedir bod mwy o deuluoedd yn dweud na allant gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ac felly disgwylir y bydd angen i lawer mwy o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Nid yw'r data cenedlaethol cyfredol ar gyfer oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth a ddarperir i Lywodraeth Cymru wedi'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn y sector gofal cymdeithasol ar ddatblygu cyfrifiad rheolaidd mwy cynhwysfawr o oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i ysgogi newid mewn diwylliant yn Llywodraeth Cymru, mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ym myd busnes ac mewn cymdeithas yng Nghymru, i fynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig. Nod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol fydd trawsnewid profiadau a chyfleoedd bywyd pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae galluogi mynediad at ddarpariaeth gofal cymdeithasol briodol a sensitif yn ddiwylliannol wedi dod i'r amlwg fel blaenoriaeth i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod camau cynnar llunio'r Cynllun ar y cyd. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru

¹⁴ [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

¹⁵ [The future of care in Wales: Resourcing social care for older adults - adroddiad gan Dadansoddi Cyllid Cymru 2020](#)

ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi datblygu strategaeth gweithlu¹⁶ ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynnwys datblygu cynlluniau recriwtio wedi'u targedu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae nifer y bobl sydd â chyflyrau hirdymor, sy'n cyfyngu ar eu bywydau a chyflyrau cronig yn cynyddu, yn bennaf oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio. Bydd cynnydd o 57% yn nifer y bobl dros 75 oed sydd â salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar eu bywyd erbyn 2035¹⁷. Henaint yw prif achos dallineb a byddardod, ac mae hyn yn debygol o gynyddu wrth i'r boblogaeth dros 85 oed barhau i dyfu. Yn y DU, mae 29,000 o oedolion ag anabledd dysgu yn byw gyda rhieni sy'n 70 oed neu'n hŷn, ac mae llawer ohonynt yn rhy hen neu fregus i barhau â'u rôl gofalu.

Cynyddodd gwariant awdurdodau lleol lawer mwy dros y 10 mlynedd diwethaf ar gyfer gwasanaethau plant na gwasanaethau oedolion, er bod poblogaeth plant yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi codi'n sylweddol. Ers 2003, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 63 y cant. Yn ogystal, mae angen ymyriadau gofal a chymorth mwy costus hefyd i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth teuluoedd, gan gynnwys y rhai lle mae plant a phobl ifanc sy'n anabl neu sydd â salwch cronig difrifol yn byw'n hirach.

Mae mynd i'r afael â'r cynnydd parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol oes y Llywodraeth hon. Er mwyn helpu i atal y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, gofynnodd y Prif Weinidog am i ddull gweithredu wedi'i dargedu gael ei ddatblygu gydag awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau gostyngiadau disgwylidig dros gyfnod o 3 blynedd (2019-2021). Fodd bynnag, ers cyflwyno'r cynlluniau hyn, gwelwyd cynnydd pellach gyda chynnydd o 6.9 y cant yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Ar 31 Mawrth 2019, roedd plant sy'n derbyn gofal o'r boblogaeth bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cael eu gorgynrychioli, gan gynrychioli 8.6 y cant o blant sy'n derbyn gofal¹⁸, o'i gymharu â 6.6 y cant o'r holl blant o'r grŵp poblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Dylid galluogi gofaluwr i fyw bywyd ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu, a thrwy gefnogi gofaluwr gellir lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Caiff yr ystadegau swyddogol diweddaraf ar nifer y gofaluwr yng Nghymru eu hadrodd drwy Gyfrifiad 2011¹⁹. Yn 2011, roedd 370,230 o ofaluwr di-dâl (plant ac oedolion) yn darparu o leiaf awr o ofal di-dâl. O'r rheini, roedd 157,794 yn darparu o leiaf 20 awr o ofal di-dâl. Mae Carers UK wedi nodi cynnydd yn nifer y gofaluwr di-dâl oherwydd pandemig y coronafeirws. Mae gofaluwr di-dâl sy'n darparu lefelau uchel o ofal ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn sâl yn barhaol neu'n anabl eu hunain. Gofal heb dâl yw'r ffynhonnell fwyaf o ofal i oedolion o bell ffordd²⁰.

¹⁶ [Strategaeth 10 mlynedd Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol](#)

¹⁷ [Asesu anghenion y boblogaeth ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru](#)

¹⁸ [Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, ar 31 Mawrth 2019.](#)

¹⁹ [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – ystadegau swyddogol y farchnad lafur](#)

²⁰ [The future of care in Wales: Resourcing social care for older adults - adroddiad gan Dadansoddi Cyllid Cymru](#)

Yr her ariannu

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r her fwyaf sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol yw'r sefyllfa gyllido yng nghyd-destun y galw cynyddol a mwy cymhleth am wasanaethau. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dal i gyfrif am ganran uwch o wariant cyffredinol llywodraeth leol. Mae costau comisiynu a chwyddiant cyflogau yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r cynnydd yn y galw ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru²¹.

Mae ansicrwydd ynghylch cyllidebau'r dyfodol. Cafodd Llywodraeth Cymru setliad cyllideb blwyddyn ar gyfer 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyllidebau llywodraeth leol £172 miliwn yn 2021-2022 ar sail tebyg am debyg o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol. Gan roi gwariant ychwanegol o'r neilltu oherwydd pandemig Covid-19, roedd y cynllun cyllideb hwn yn cynrychioli cynnydd uwch na chwyddiant o fwy na £400 miliwn mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn 2021-22 i dros £8.7 biliwn. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm grant arbennig uwch o £50 miliwn i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r pwysau ar ofal cymdeithasol a darparu dros £130 miliwn drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Ond hyd yn oed gyda'r cyllid ychwanegol hwn, mae'r rhagamcan o'r angen am gyllid ar gyfer y dyfodol yn edrych yn heriol. Bydd angen cwrdd ag unrhyw oblygiadau ariannol yn y dyfodol o fewn y setliadau yn y dyfodol a bennir gan gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

Mae'r Sefydliad Iechyd yn amcangyfrif y bydd y pwysau ar ofal cymdeithasol yn cynyddu tua 4.1 y cant y flwyddyn mewn termau real rhwng 2015 a 2030-31, oherwydd demograffeg, cyflyrau iechyd cronig a chostau cynyddol. Bydd hyn yn golygu bod rhaid i'r gyllideb ddyblu bron erbyn 2030-31 i gyd-fynd â'r galw. Mae'r gyfradd twf hon yn uwch na'r disgwyl ar gyfer y GIG, gan fod gofal cymdeithasol yn canolbwyntio'n helaeth ar y bobl eiddil oedrannus, yn aml gyda chydafiachedd, a phoblogaeth llawer llai ond sy'n cynyddu (ac yn heneiddio) o bobl ag anabledau dysgu.

Mae dadansoddiad a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru yn dangos gofynion cyllido posibl ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig. Cyflwynodd LE Wales bum senario posibl, gan ragweld gofynion gwariant net hyd at 2022-23. Er ei bod yn anodd rhagweld patrymau gwariant, ers eu cyhoeddi, mae data 2018-19 yn dangos cynnydd blynyddol o 5.7 y cant ar wariant cyfredol net 2017-18, sydd agosaf at amcangyfrif y senario cost uchel. Cafodd y senarios hyn eu rhagweld cyn Covid-19, a gyda chynnydd yn y galw yn sgil y pandemig, mae'n debygol y bydd yr amcanestyniadau disgwyliedig yn amcangyfrif rhy isel.

Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal ('y Grŵp') wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o godi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yng nghyd-destun cynigion yr Athro Holtham²² ar gyfer ardoll wedi'i neilltuo i greu cronfa gofal cymdeithasol. Am gyfrannu fel hyn, rhagwelodd y byddai pobl yn cael "addewid gofal cymdeithasol" neu fudd clir o ryw fath. Mae gwaith y Grŵp wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig, ond mae'n mynd rhagddo. Mae'r Grŵp wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer defnyddio unrhyw arian ychwanegol a godir. Roedd hyn yn cynnwys

²¹ [Wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol? Llywodraeth leol Cymru a chynni - adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#) 2019

²² Talu am ofal cymdeithasol – Adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru 2018

yr holl ofal personol a llety am ddim, yn debyg i'r GIG. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd cost gychwynnol hyn yn £700 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn, sydd ymhell y tu hwnt i allu Llywodraeth Cymru i ddarparu. O ganlyniad, mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar ddatblygu opsiynau wedi'u hariannu a allai fod yn gynaliadwy a darparu gofal o ansawdd gwell.

Y farchnad gofal a chymorth

Mae'r ystad gofal yn fawr ac yn amrywiol, yn cynnwys darparwyr preifat llai yn bennaf, gyda maint elw bychan a chronfeydd ariannol cyfyngedig. Ar 22 Rhagfyr 2019, roedd 1076 o wasanaethau cartrefi gofal ar gyfer oedolion, 229 o wasanaethau cartrefi gofal ar gyfer plant a 570 o wasanaethau cymorth cartref, wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd 23 o'r 570 o wasanaethau cymorth cartref yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol. Mae'r rhan fwyaf (75 y cant) o gartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru yn eiddo i un perchennog sy'n berchen ar un cartref gofal neu berchennog sydd â llai na phum cartref gofal. Mae canran llawer llai o gartrefi yn eiddo i ddarparwyr grwpiau mwy (8 y cant)²³.

Mae mwy o oedolion yn derbyn gofal a chymorth gartref lle bynnag y bo modd, yn unol â'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hyn wedi creu lefel o alw sy'n fwy na'r ddarpariaeth gofal cartref sydd ar gael. Yn aml, mae'r rhan fwyaf o'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai wedi bod oherwydd bod pobl yn aros i ddychwelyd i'w cartrefi gyda pheccynnau o wasanaethau gofal cartref ar waith.

Mae gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi newid y fframwaith ar gyfer rheoleiddio ac arolygu'r farchnad ofal. Mae rheoliadau newydd wedi'u gwneud sy'n ymwneud â phob un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig a restrir yn y Ddeddf honno. Gwnaed y rheoliadau mewn tri cham – mae esboniad o'r rheoliadau (a dolenni perthnasol) ar gael ar hyb gwybodaeth a dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru²⁴.

Pwrpas y rheoliadau hyn a'r AGC yw sicrhau diogelwch gofal a chymorth, i wella pethau er mwyn i bobl allu sicrhau llesiant a'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â darpariaethau penodol y rheoliadau hyn, ac mae AGC yn gallu cymryd camau yn erbyn darparwyr ac unigolion cyfrifol pan fo angen. Mae'r rheoliadau'n canolbwyntio ar chwe maes allweddol: gwybodaeth, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, diogelu, yr amgylchedd (gan gynnwys adeiladau), staffio a llywodraethu.

Nid yw allyriadau carbon anuniongyrchol gan ddarparwyr gofal a chymorth yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Ond, mae modd gostwng yr allyriadau anuniongyrchol yn sylweddol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn drwy broses gaffael. Gellir datgarboneiddio allyriadau anuniongyrchol drwy gyfrwng disgwyliadau caffael cryf o godi safonau'r holl sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth.

²³ [Adolygiad Cyflym ar gyfer Cartrefi Gofal mewn perthynas â Covid-19 yng Nghymru gan yr Athro John Bolton 2020](#)

²⁴ [Hyb gwybodaeth a dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

Comisiynu a chymhlethdod

Defnyddiodd y Pecyn Cymorth *Let's Agree to Agree*²⁵ y term comisiynydd i ddisgrifio'r staff o'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ystod a'r math cywir o ofal ar gael i bobl yn eu hardal. Mae comisiynwyr gofal cymdeithasol yn dadansoddi angen, yn cynllunio ac yn dylunio darpariaeth briodol o wasanaethau, yn sicrhau'r ddarpariaeth honno (yn aml ond nid yn gyfan gwbl drwy broses gaffael) ac yn monitro ansawdd a sut mae'r gwasanaethau dan sylw'n cael eu darparu'n barhaus. Mae 29 o brif gomisiynwyr gofal yng Nghymru drwy 22 awdurdod lleol a 7 bwrdd iechyd lleol.

Mae'r Pecyn Cymorth *Let's Agree to Agree* yn disgrifio caffael fel y broses o sicrhau bod pris teg yn cael ei dalu o'r pwrs cyhoeddus ar ran y bobl hynny y mae'r wladwriaeth yn trefnu neu'n darparu gofal ar eu cyfer. Yn bennaf, mae comisiynwyr yng Nghymru yn caffael gwasanaethau ac yn gwneud trefniadau rheoli contractau. Oherwydd cymhlethdod y farchnad, a llai o gapasiti oherwydd cyni, mae'n anodd i gomisiynwyr ddatblygu pob rhan o'r cylch comisiynu, er enghraifft, dylunio, meithrin gallu, rheoli perthnasoedd a dadansoddi. Gwelir hyn gyda gormod o welyau gofal preswyl a bylchau yn y gwasanaeth ledled Cymru, er enghraifft prinder gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig wrth ddarparu gofal nyrsio.

Prin fu'r cynnydd o ran creu sylfaen fwy amrywiol o ddarparwyr a newid cydbwysedd y farchnad drwy gefnogi modelau gofal amgen. Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru 2018²⁶ yn nodi bod gofyn cryfhau'r rôl gomisiynu a'i defnyddio i gymell ail-lunio gwasanaethau iechyd a gofal didor yn lleol gan ganolbwyntio mwy ar gyfrifoldebau iechyd a llesiant. Er bod dulliau aml-asiantaeth arloesol yn cael eu datblygu, mae angen i'r raddfa a'r cyflymder gynyddu er mwyn diwallu anghenion newidiol y boblogaeth.

Er mwyn cefnogi'r sector yn ei rôl gomisiynu, sefydlwyd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr allweddol o'r sector ac mae'n chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu gweledigaeth a gosod cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yng Nghymru. Mae'r Bwrdd yn:

- Rhoi safbwynt cenedlaethol ar y farchnad gofal a chymorth;
- Dylanwadu ar bolisi cenedlaethol;
- Annog gweithredu arferion da mewn rhanbarthau; ac yn
- Cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chomisiynu rhanbarthol effeithiol a chyfuno cronfeydd.

Er nad yw'r Bwrdd yn cyfarwyddo nac yn pennu rhaglenni gwaith awdurdodau lleol unigol, byrddau iechyd lleol na Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ei bwrpas yw bod yn llais awdurdodol a mynd ati i hyrwyddo dull gweithredu cydlynol o ran arferion comisiynu a chasglu arferion da ledled Cymru.

Er bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar ddulliau cydweithredol o gomisiynu drwy rannu asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal (a, phan gânt eu rhoi ar waith,

²⁵ [Lets agree to agree- A toolkit for commissioners and providers to agree the cost of residential and nursing care for older people in Wales, Awst 2018](#)

²⁶ [Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru 2019](#)

adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad), ychydig o ardaloedd sydd wedi sicrhau dull gwirioneddol o weithio mewn partneriaeth ar draws pob agwedd ar y cylch comisiynu. Hyd yn oed gyda'r consensws a gafwyd drwy'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, nid yw'r Pecyn Cymorth *Let's Agree to Agree*²⁷ wedi sicrhau'r ymrwymiad i'w fabwysiadu ledled Cymru.

Gellir cyfeirio at strwythur presennol y farchnad gofal cymdeithasol i oedolion fel monopsoni – lle mae nifer fach o brynwyr a nifer fawr o ddarparwyr. Awdurdodau lleol yw'r prif brynwyr yn y farchnad gofal cymdeithasol; yng nghyd-destun cyni, mae strwythur y farchnad hon a chyllidebau dan bwysau wedi arwain at ostwng ffioedd a chostau. Mae darparwyr gofal yn aml yn cystadlu yn yr un ardal leol drwy leihau'r costau i ennill contractau. Gan mai'r prif gostau ar gyfer darparwyr yw llafur, mae cyflogau a thelerau ac amodau yn cael eu hystyried fel cost i'w lleihau er mwyn sicrhau bod darparwyr yn gallu ennill contractau. Mae hyn wedi arwain at bwysau ar i lawr ar gyflogau ac ar delerau ac amodau.

Yn ogystal, mae darnio yn ei gwneud yn llawer anoddach i'r sector chwarae ei ran o safbwynt mabwysiadu arferion amgylcheddol effeithiol yn gyson. Er y gall fod gan ddarparwyr unigol nodau a chynlluniau uchelgeisiol i leihau eu hallyriadau carbon yn sylweddol, mae'n anoddach nodi dull wedi'i ysgogi ar gyfer y sector cyfan.

Mae'r gwerthusiad o weithrediad y Ddeddf²⁸ yn awgrymu, er bod rhai elfennau cadarnhaol, bod diffygion hefyd yn yr arferion comisiynu. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu ymdeimlad bod ymarfer wedi esblygu fel bod comisiynu ar gyfer egwyddorion a chanlyniadau'r Ddeddf wedi cael ei wireddu, ond fod cryn gynydd eto i'w wneud. Drwy drafodaethau gyda'r sector, y prif fater a nodwyd wrth gomisiynu yn ystod gweithredu'r Ddeddf oedd y diffyg cydlynw rhwng awdurdodau lleol gan arwain at 22 ffordd bendant a gwahanol o wneud pethau.

Yn groes i hynny, gwnaed cynnydd gan Consortiwm Comisiynu Plant Cymru. Crëwyd y Consortiwm yn 2012 ac mae'n cynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol sydd wedi dod at ei gilydd i roi sylw i bryderon am y safonau amrywiol sy'n amlwg wrth gomisiynu lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Consortiwm yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i baru plant agored i niwed y mae angen gofalu amdanynt â'r lleoliad gorau posibl.

Y weledigaeth yw sicrhau gwell canlyniadau, yn ogystal â gwell gwerth am arian, drwy safonau gofal rhagorol gyda darparwyr dibynadwy sydd â sicrwydd ansawdd, gan fanteisio i'r eithaf ar gontractau safonol, telerau ac amodau, ac arbedion maint prynwyr. Yn ogystal ag arbedion sylweddol o ran costau, mae'r manteision yn cynnwys gwell gwybodaeth reoli, prosesau ac offer cydweithredol cyson a diogel ar draws awdurdodau i hwyluso'r broses o baru unigolion â lleoliadau, dyfarnu contractau a monitro contractau, rheoli risg ar y cyd, a sicrhau ansawdd darparwyr; gostyngiad parhaus mewn prisiau; ac amgylchedd o bartneriaeth gyda'r sector annibynnol i gomisiynu modelau gofal cynaliadwy newydd. Roedd hefyd yn rhesymoli prosesau ar gyfer pob awdurdod sy'n cymryd rhan gan sicrhau proses leoli gyson sy'n addas i'r diben drwy ganolbwyntio ar anghenion y plentyn.

²⁷[Lets agree to agree- A toolkit for commissioners and providers to agree the cost of residential and nursing care for older people in Wales, Awst 2018](#)

²⁸ [Mae'r gwerthusiad o weithrediad y Ddeddf](#)

Mae'r Consortiwm wedi sefydlu fframweithiau gofal cymdeithasol ar gyfer lleoliadau maeth a phreswyl i blant sy'n derbyn gofal a dim ond y rhai sy'n cynnig y lleoliadau gorau a'r gwerth am arian all ddod yn ddarparwyr Fframwaith. Mae'r Fframweithiau hyn yn darparu ateb caffael strategol ar gyfer anghenion lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn y sector annibynnol. Am oes darparwr y contract, mae ansawdd, cost fesul lleoliad, telerau, amodau a manylebau yn cael eu pennu a'u cytuno. Mae hyn wedi cael gwared â'r angen am broses gaffael lawn ar gyfer pob lleoliad ac wedi cael gwared ar opsiynau o brisiau 'manteisgar' a oedd yn bodoli o'r blaen ar gyfer rhai gofynion brys. Roedd hefyd yn rhesymoli prosesau ar gyfer pob awdurdod sy'n cymryd rhan gan sicrhau proses leoli gyson sy'n addas i'r diben drwy ganolbwyntio ar anghenion y plentyn.

Cynaliadwyedd y gweithlu

Mae darparu gofal cymdeithasol yn broses ddwys o ran llafur, a hynny'n briodol, ac mae argaeledd gweithlu medrus yn allweddol yn y gwaith o ddarparu gofal o ansawdd uchel²⁹. Mae pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi dilyniant a pha mor gyfarwydd yw'r bobl sy'n aml yn darparu gofal personol iawn, a'i bod yn bwysig meithrin perthynas gan fod hynny'n gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel³⁰. Mae datblygu perthnasoedd cadarnhaol yn hanfodol ar gyfer gofal diogel, effeithiol o ansawdd uchel ac mae'n bwysig i bawb, yn blant ac yn oedolion.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn heneiddio ac o'r un rhyw. Mae'r rhan fwyaf o staff darparwyr gofal a gomisiynir yn fenywod ac mae dros hanner y gweithlu dros 40 oed³¹. Yn ei ddadansoddiad ar gyfer Cymru a Lloegr, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn nodi bod rhai pobl o leiafrifoedd ethnig penodol yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn rolau gweithwyr hanfodol. Maent yn dangos bod gweithwyr Du Affricanaidd, ledled Cymru a Lloegr, yn llawer mwy tebygol na grwpiau ethnig eraill o gael eu cyflogi fel gweithwyr hanfodol, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae dadansoddiad a baratowyd gan Lywodraeth Cymru³² yn dangos bod dros hanner y gweithwyr o ethnigrwydd Bangladeshaidd yn weithwyr hanfodol, a bod hanner gweithwyr Du, Affricanaidd, Caribiaidd a Du Prydeinig yn gweithio mewn galwedigaethau hanfodol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod cyfradd trosiant staff yr holl weithlu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn 30 y cant yng Nghymru^{33,34}. Yn ogystal â throsiant uchel, mae'r materion sy'n codi ar hyn o bryd yn cynnwys cyfraddau swyddi gwag uchel, costau uchel recriwtio a hyfforddi staff newydd, defnydd cynyddol o staff asiantaeth (drytach), a throsiant yn y sector gyda staff yn symud yn aml rhwng cyflogwyr am gymhellion ariannol neu amodau gwaith gwell. Nododd ymchwil ddiweddar gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru³⁵ fod cystadleuaeth gan gyflogwyr y tu allan i'r sectorau gofal cymdeithasol (ee manwerthu). Ystyrir bod y

²⁹ [The future of care in Wales: Resourcing social care for older adults - gan Dadansoddi Cyllid Cymru](#)

³⁰ Gofal cartref yng Nghymru: Safbwyntiau a phrofiadau pobl hŷn. Adroddiad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2012.

³¹ [Adroddiad sy'n ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref 2016](#)

³² [Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchoddedig](#)

³³ [Employee turnover levels and rates by industry section, UK, January 2017 to December 2018](#)

³⁴ [Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal cartref](#)

³⁵ [Ymchwil i delerau ac amodau contractau cyflogaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)

cyflogwyr hyn yn talu cyflog tebyg neu well, gyda llai o gyfrifoldeb yn eu swyddi. Teimlwyd bod cystadleuaeth o fewn a rhwng cyflogwyr gofal cymdeithasol a'r GIG yn cyfrannu at broblemau cadw staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn rhan bwysig o economi sylfaenol Cymru, sy'n cynrychioli 6 y cant o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Mae Adroddiad Gwerth Economaidd Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2018³⁶ yn nodi yr amcangyfrifir bod y Gwerth Ychwanegol Crynswth blyneddol cyfun, ynghyd â'r lluosydd cadwyn gyflenwi effaith anuniongyrchol a'r lluosydd cyflogau ar gyfer y sector (effaith a ysgogwyd) yn cynhyrchu £2.2 biliwn yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi bod 72,100 o swyddi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion mewn 2000 a mwy o safleoedd ledled Cymru (mewn gofal preswyl, gofal cartref, gofal dydd a lleoliadau eraill sy'n cynnwys gwasanaethau cymorth canolog) sy'n cyfateb i 54,100 o Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yn 2016. Mae'r rhan fwyaf o'r sector gofal ar isafswm cyflog cenedlaethol. Amcangyfrifwyd bod enillion cyfartalog y rheini yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn £16,900 am bob FTE, o'i gymharu ag enillion cyfartalog ar draws holl ddiwydiannau'r rheini yng Nghymru, sef £29,200 yn 2016.

Fel rhan o'r Comisiwn Gwaith Teg, *nododd adroddiad Gwaith Teg Cymru*³⁷, er bod y sector yn ddiwydiant craidd sy'n cyfrannu at lesiant unigolion a chymdeithas, ei fod yn sector sy'n cynnwys nodweddion amrywiol sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ac amgylchedd gwaith gwael. Mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull Fforwm Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar sy'n ystyried y ffordd orau o wella cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill yn y sector gofal cymdeithasol.

Mae ymchwil yn dangos bod cyflog, telerau ac amodau yn cael eu hystyried yn ffactorau allweddol sy'n ymwneud â bodlonrwydd mewn swydd, ac mae cysylltiad pwysig rhwng bodlonrwydd mewn swydd, ansawdd gwasanaeth³⁸ a cyflawni canlyniadau pobl. Ystyrir bod gwella cyflogau, telerau ac amodau yn rhan bwysig o ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector, yn enwedig ar gyfer gofal cartref, lle gwyddom yn anecdotaidd fod cyflogau'n is a bod oriau gwaith yn llai dibynadwy na mewn rhannau eraill o'r sector³⁹.

Mae dadansoddiad diweddar gan LE Wales o ddata gweithlu gofal cymdeithasol oedolion a graddfeydd sefydliadau gofal yn Lloegr (annigonol, angen gwella, da ac eithriadol) gan Gomisiwn Ansawdd Gofal Lloegr yn dangos cysylltiad rhwng cyflogau gweithwyr gofal ac ansawdd gofal. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod cynnydd o £1 mewn cyflogau fesul awr ar gyfer gweithwyr gofal yn lleihau cyfran y sefydliadau y mae angen eu gwella tua 4.5 pwynt canran, a hynny ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref. Er nad oes graddfeydd ansawdd cyfatebol ar gael ar gyfer lleoliadau yng Nghymru ar hyn o bryd, tybir bod y berthynas hon yn bodoli yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i helpu wella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir gan y gweithlu gofal cartref, wrth ofyn am gynydd yn y bwch rhwng teithio ac amser galwadau. Mae'r rhain yn cynnig rhagor o gyfleoedd i sefydlu gofal cartref fel

³⁶ [Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Cymru](#)

³⁷ [Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg](#), Mawrth 2019

³⁸ [Fair care, a workforce strategy for social care](#), Mawrth 2019

³⁹ [Fair care, a workforce strategy for social care](#), Mawrth 2019

gyrfa tymor hir ddeniadol, sy'n rhoi cefnogaeth ac sy'n rhoi boddhad. Cymerwyd camau hefyd i gyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofal cartref roi dewis i weithwyr, ar ôl iddynt gael eu cyflogi am dri mis, ynghylch a ydynt am gael eu cyflogi ar gontractau dim oriau neu gontractau oriau penodol.

Fodd bynnag, yn ôl prosiect gwerthuso *Mesur y Mynydd*⁴⁰ yn 2019, roedd y rheini sy'n dod i gysylltiad â gofal cymdeithasol yn rheolaidd, naill ai drwy weithiwr cymdeithasol neu drwy weithwyr sy'n gofalu yn dod i'w cartref, yn dweud bod trosiant y staff yn parhau i achosi ansicrwydd a phryder. Yn aml nid oedd unigolion yn gwybod pa weithwyr gofal y dylent eu disgwyl neu a fyddent wedi'u cyfarfod o'r blaen. Nododd yr adroddiad ddau ffactor allweddol sy'n cyfrannu at ba bryd y mae pobl yn fwyaf tebygol o deimlo eu bod allan o reolaeth, sef gweithio gyda nifer o wasanaethau neu sectorau a throsiant staff.

Plant

Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu'r egwyddor o gefnogi teuluoedd i ofalu am blant gyda phwyslais ar helpu rhieni i ddatblygu eu gallu eu hunain i adnabod a rheoli problemau, gan gadw teuluoedd gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a sefydlog. Mae gan wasanaethau ataliol rôl allweddol i'w chwarae o ran diwallu anghenion plant drwy atal amgylchiadau a allai arwain at blentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Nododd *Adolygiad o Argyfwng Gofal 2018*⁴¹ fod ymchwil yn parhau i godi cwestiynau am lefel ac effeithiolrwydd y gefnogaeth sydd ar gael i rieni plant sy'n cael gofal a chymorth, ac mae'n nodi bod cyfran sylweddol o wariant y wladwriaeth ar 'ymyriadau hwyr' i blant a theuluoedd, ac un o'r eitemau unigol mwyaf yw cost plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal. Mae rhoi'r ffocws ar drwsio teuluoedd ar wasanaethau cymdeithasol statudol yn aml yn rhy hwyr. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwaith 'gostyngiadau disgwylidig' Llywodraeth Cymru wedi darparu tystiolaeth bellach, er bod ffactorau economaidd-gymdeithasol yn esbonio'r gwahaniaeth yn y galw rhwng awdurdodau lleol, bod amrywiaeth sylweddol yn lleol hefyd o ran arferion atal plant rhag bod mewn gofal. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall, er gwaethaf polisi sy'n cefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd ac allan o ofal, gan gynnwys cynlluniau atal ac ymyrryd yn fuan. Yn rhy aml hefyd, mae plant yn cael eu lleoli ymhell o'u cartref a hynny ar gost fawr, ac mae eu symud oddi wrth eu teuluoedd a dod o hyd i leoliadau priodol, rheoledig yn aml yn anodd. Ochr yn ochr â hyn, nid yw'r system llety diogel yn aml yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc ac mae diffyg buddsoddi o hyd mewn ehangu gofal preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion cymhleth, i'w cefnogi i aros yn agos at eu cartrefi a symud i fyw'n annibynnol.

Ymwelodd y Comisiynydd Plant â phob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod 2019, a chynhyrchodd adroddiad, *Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant*⁴². Roedd yn canolbwyntio ar blant ag anghenion

⁴⁰ [Mesur y Mynydd-beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru?](#)

⁴¹ [Care Crisis Review- Factors contributing to national increases in numbers of looked after children and applications for care orders](#) (Mehfin 2018)

⁴² [Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru – Dim drws anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant](#)

iechyd meddwl neu lesiant emosiynol cymhleth, a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn symud i wasanaethau oedolion. Canfu'r adroddiad fod plant yn aros yn rhy hir i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, a'u bod yn cael eu 'bownsio' rhwng gwasanaethau nad ydynt yn gallu cytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal. Daeth y Comisiynydd i'r casgliad bod angen dybryd am ddull gweithredu 'Dim Drws Anghywir', lle ymatebir i anghenion ac amgylchiadau'r plentyn mewn modd cyfannol, aml-asiantaeth, cofleidiol, a lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus y dylai ble bynnag y maent yn mynd i gael cymorth allu darparu cymorth yn uniongyrchol, neu eu cyfeirio at y lle iawn ar gyfer cymorth.

Roedd yr adroddiad hwn yn ychwanegu rhagor o dystiolaeth at yr angen i ddatblygu darpariaeth breswyl gofal cymdeithasol ac iechyd ar y cyd a gomisiynir ar gyfer plant ag anghenion iechyd meddwl a llesiant emosiynol cymhleth. Er mwyn ymateb i'r dystiolaeth hon a'r diffyg buddsoddiad, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael eu nodi fel y cyfrwng cyfunol ar gyfer darparu gwasanaethau therapiwtig, amlddisgyblaethol. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi nifer fach o ddatblygiadau a fydd yn galluogi pobl ifanc sy'n cael eu lleoli i ffwrdd i ddychwelyd yn nes at eu cartrefi.

Canfu'r Comisiynydd hefyd fod y broses o drosglwyddo i wasanaethau oedolion yn broses gymhleth ac yn llawn straen i bobl ifanc ag anableddau dysgu o hyd. Roedd adroddiad cynharach, *'Don't Hold Back'*, 2018 wedi canfod nad oedd pobl ifanc a'u teuluoedd yn ymwneud digon â'u gofal eu hunain. Roedd gwahanol drothwyon ar draws gwasanaethau, ac roedd gan bob gwasanaeth ffordd wahanol o reoli'r broses drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Er bod arwyddion addawol, ni fu llawer o newid ar lawr gwlad. Fel y nododd y Comisiynydd, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod mewn sefyllfa ddelfrydol i wneud trefniadau rhwng gwasanaethau plant ac oedolion i sicrhau cyfnod trosglwyddo integredig ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio

Efallai y bydd unigolion, eu teuluoedd a'u gofalmwyr angen gofal a chymorth gan fwy nag un gweithiwr proffesiynol neu sefydliad. Mewn achosion fel hyn, dylai gwasanaethau gael eu cydlynu'n effeithiol a'u darparu i ddiwallu anghenion. Pan fydd yr holl bartneriaid yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, mae'n gwella canlyniadau i bobl. Mae hefyd yn golygu bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Gellir disgrifio prif nodau partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth;
- Gwella canlyniadau llesiant;
- Darparu gofal a chymorth cydlynus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; a
- Defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol.

Mae *Cymru Iachach* yn atgyfnerthu pwysigrwydd hanfodol cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i alluogi hynny. Wrth ystyried sut mae gofal cymdeithasol yn cael ei drefnu, mae ei berthynas â gofal iechyd yn dal yn bwysig. Mae gan y sectorau tai ac addysg hefyd rolau allweddol i weithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl.

Mae'r Ddeddf yn gosod disgwyliadau clir ac yn ceisio darparu dulliau sydd yr un mor glir i bartneriaid sydd â rôl uniongyrchol yn trefnu neu darparu gofal a chymorth, i

gydweithio'n effeithiol ar lefel strategol, gan gynnwys pennu cyllidebau cyfun i ddarparu gwasanaethau gwirioneddol integredig. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf ac adran 25 o Ddeddf Plant 2004 gyda'i gilydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol gydweithredu. Mae hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau a gofyniad am drefniadau partneriaeth ffurfiol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dwy ffrwd cyllid grant allweddol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w cefnogi i ysgogi integreiddio; y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig. Mae adolygiadau diweddar o'r cronfeydd hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol am gynnydd gweithio mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol.

- Cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig ⁴³ ym mis Gorffennaf 2019. Nod y Gronfa Gofal Integredig yw sbarduno a galluogi gwaith integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a darparwyr annibynnol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Caiff ei dosbarthu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n goruchwyllo ac yn rheoli'r gronfa yn eu hardal, ac mae dyraniadau cyfalaf a refeniw bob blwyddyn. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cymeradwyo prosiectau refeniw ac yn cyflwyno Cynllun Buddsoddi Refeniw blynyddol i Lywodraeth Cymru. Caiff cynigion cyfalaf eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ac maent yn cael eu hariannu â grant. Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad cyffredinol fod y gronfa'n cael effaith gadarnhaol, a'i bod yn rhoi ysgogiad i bartneriaid ddatblygu gwasanaethau integredig a symud tuag at drefniadau cyllido ar y cyd yng nghyd-destun polisi a deddfwriaeth ehangach.
- Sefydlwyd y Gronfa Trawsnewid i gyflymu'r gwaith o ddatblygu ac ymestyn modelau newydd o ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yn canolbwyntio ar dri maes: cysoni iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiraffferth; darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol a chymunedol lleol; a gwasanaethau a gweithgareddau ataliol integredig newydd. Mae'n cael ei darparu drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae 30 o brosiectau wedi cael eu cefnogi ar draws y saith rhanbarth. Nododd adroddiad canol tymor⁴⁴ ym mis Ebrill 2020 ei bod yn ymddangos bod y gronfa'n cael effaith gadarnhaol o ran cael partneriaid i weithio gyda'i gilydd a bod rhywfaint o dystiolaeth gychwynnol ar draws rhanbarthau lle mae staff yn dechrau meddwl yn wahanol a newid eu diwylliant gwaith.

Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod rhanbarthau'n cydweithio'n effeithiol i ddefnyddio cyllidebau grant a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r cynnydd o ran rhannu neu gyfuno cyllidebau a chamau gweithredu er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol a pherfformio'n well wedi amrywio. Mae adroddiad ar ddefnyddio cyllidebau cyfun mewn gofal preswyl i bobl hŷn, a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan KPMG yn 2020⁴⁵, wedi dangos cynnydd cymedrol yn unig, ac mae'n nodi bod Byrddau

⁴³

[Y Gronfa Gofal Integredig \(Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2019\)](#)
[Gwerthusiad canol cyfnod o Gronfa Trawsnewid 'Cymru Iachach' \(ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru, Ebrill 2020\)](#)

⁴⁵ [Adroddiad ar ddefnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gyllidebau cyfun ar gyfer llety cartrefi gofal gan KPMG 2020](#)

Partneriaeth Rhanbarthol yn bodloni'r gofynion sylfaenol yn bennaf. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o feysydd i'w datblygu, gan gynnwys:

- Nid yw llawer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfuno cyllidebau'n ffisegol a phan fyddant yn gwneud hynny, nid yw'r rhan fwyaf yn mynd ati'n weithredol i flaenoriaethu a rheoli'r cyllidebau fel un gronfa;
- Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn poeni am y risg o roi cymhorthdal ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd nid oes yr un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhannu risgiau ariannol er bod mwy o dryloywder o ran gweithgareddau, gwariant a risgiau;
- Dim ond argymhellion y gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu gwneud ac nid penderfyniadau gan nad ydynt yn endidau cyfreithiol;
- Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn poeni am reoli carfan amrywiol o anghenion ar draws ardaloedd; a
- Dylid rhannu arferion da fel sefydlu rheolwr cronfeydd cyfun i sicrhau'r perfformiad gweithredol ac ariannol gorau posibl.

Mewn adolygiad thematig gan AGC, *Atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn*⁴⁶, ym mis Medi 2020, ar sail arolygiadau a gwaith maes a gynhaliwyd yn ystod 2019, gwelwyd bod y cynnydd tuag at bartneriaeth a darparu gwasanaethau integredig i bobl hŷn yn dal yn gymysg iawn. Ceir tystiolaeth o ddulliau partneriaeth integredig mewn rhai ardaloedd ond yn gyffredinol dyfarnwyd statws 'coch' ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o enghreifftiau o dimau adnoddau cymunedol ar y cyd yn gweithio fel partneriaid cyfartal, ac mewn rhai ardaloedd, swyddi a ariennir ar y cyd a thimau rheoli ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu gwell integreiddio, mae'n amlwg yn rhoi cyfle i gyfathrebu, cydnabod tir cyffredin a rhannu cyfrifoldeb. Yn ogystal, mae comisiynu strategol drwy asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal yn dal yn ei ddyddiau cynnar ac yn cael ychydig o effaith. Dywed yr adroddiad nad yw partneriaid yn rhannu gweledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, ac mae arweinwyr ac uwch reolwyr yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn eu meysydd rheoli eu hunain, yn hytrach nag ar bobl a chanlyniadau.

Gallai gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau gael ei ystyried yn gyfyngedig gan nad oes ganddynt yr holl swyddogaethau y gallai fod eu hangen i sicrhau integreiddio. Nid oes ganddynt staff sy'n atebol yn uniongyrchol na chyllideb y gellir ei rheoli. Daeth gwerthusiad ffurfiol Llywodraeth Cymru ar weithredu'r Ddeddf i'r casgliad mai un flaenoriaeth ar gyfer gweithredu pellach oedd parhad a datblygu integreiddio a phartneriaethau, monitro a darparu tystiolaeth o ganlyniadau, a'r seilwaith i hwyluso gwaith integredig. O ystyried y cynnydd cymysg a nodwyd uchod a chyfyngiadau deddfwriaethol Rhan 9 y Ddeddf, mae angen rhagor o gymorth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau'r budd gorau posibl o'u gallu ar y cyd i arwain newid.

Atal

Mae atal yn ganolog i raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer newid gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen canolbwyntio ar atal ac ar ymyrryd yn fuan er mwyn sicrhau

⁴⁶

Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn, Medi 2020

bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau gofal a chymorth yn aros i ymateb nes bydd pobl yn cyrraedd sefyllfa o argyfwng. Mae adran 14 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad strategol ar y cyd o anghenion gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr. Rhaid i'r asesiad hwnnw hefyd asesu ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau ataliol. Mae adran 15 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu'r gwasanaethau ataliol hyn.

Nid oes un diffiniad penodol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn weithgarwch ataliol. Gall fod yn unrhyw beth sy'n helpu i ddiwallu angen a nodwyd a gallai amrywio o fesurau eang sydd wedi'u hanelu at y boblogaeth gyfan i ymyriadau unigol wedi'u targedu'n well, gan gynnwys mecanweithiau i alluogi pobl i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau am eu bywydau.

Gwnaed rhywfaint o gynnydd allweddol, wedi'i gefnogi gan bartneriaid sy'n defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, i ddatblygu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol. Mae'r trydydd sector yn benodol wedi helpu i ddod â'r ffocws hwn a'r gallu i atal i agenda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a'r galw cynyddol am wasanaethau i ddiwallu anghenion mwy cymhleth yn aml yn golygu bod comisiynu a darparu'n canolbwyntio ar y gwasanaethau aciwt, sy'n fwy costus ac sy'n gwasgu'r capasiti ar gyfer gwaith ataliol. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran gofal a chymorth i blant.

Gwersi o rannau eraill o'r DU

Er bod systemau iechyd a gofal cymdeithasol wedi esblygu mewn ffyrdd gwahanol ac ar gyflymder gwahanol ar draws y DU ers datganoli, mae llawer o brofiad ac arloesi y gellir eu rhannu a gwersi a ddysgwyd rhwng y pedair gwlad, o ran cydweithio ac integreiddio. Yr hyn sydd gan y systemau i gyd yn gyffredin yw ymgyrch i ailgydbwysu gofal oddi wrth ysbyty aciwt tuag at atal a chefnogi yn y gymuned ac yn y cartref.

Mae Gogledd Iwerddon yn unigryw yn y DU am ei fod wedi trefnu gofal iechyd a chymdeithasol o fewn yr un strwythur sefydliadol drwy Ddeddf (Diwygio) Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2009. Mae adroddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth Nuffield⁴⁷ wedi dangos nad yw cael system integredig ynddi'i hun yn arwain at roi blaenoriaeth uwch i ofal cymdeithasol nac at weithio'n fwy hwylus ar draws y sectorau. Mae profiad Gogledd Iwerddon yn atgyfnerthu'r neges bod arweinyddiaeth a chraffu +effeithiol, o fewn diwylliant sy'n hyrwyddo arloesedd a gwaith partneriaeth gwirioneddol, yn bwysicach yn y pen draw na strwythurau.

Yn Lloegr, mae dull partneriaeth yn esblygu yn seiliedig ar Systemau Gofal Integredig, sy'n cymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros reoli adnoddau a darparu iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw'r rhain wedi cael statws cyfreithiol eto a disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cynigion a deddfwriaeth ddrafft ar Systemau Gofal Integredig yn gynnar yn 2021. Nododd Kings Fund 2020⁴⁸ fod aeddfedrydd gweithio

⁴⁷ [Change or Collapse: Lessons from the drive to reform health and social care in Northern Ireland gan Ymddiriedolaeth Nuffield, Gorffennaf 2019](#)

⁴⁸ [The King's Fund- Integrated care systems explained: making sense of systems, places and neighbourhoods](#)

mewn partneriaeth ar draws y systemau hyn yn amrywio'n helaeth. Y systemau sydd bellaf ar y blaen yw'r rheini sydd wedi rhoi blaenoriaeth i gryfhau cysylltiadau cydweithredol ac ymddiriedaeth rhwng sefydliadau partner a'u harweinwyr. Mae hyn wedi cael ei gyflawni'n aml gan arweinwyr o wahanol sefydliadau yn treulio amser gyda'i gilydd yn gweithio drwy'r heriau sy'n wynebu'r system a sefydliadau unigol, gan egluro pwrpas cyffredin ar gyfer cydweithio, a gwneud gwaith datblygu penodol gyda'u grwpiau arwain. Nododd y Kings Fund hefyd nad yw cydweithio ar draws y GIG a llywodraeth leol yn hawdd, ac mae gofyn i arweinwyr lleol (gan gynnwys arweinwyr y GIG yn ogystal â swyddogion ac aelodau etholedig mewn llywodraeth leol) ddeall heriau ei gilydd yn well, cydnabod a pharchu gwahaniaethau mewn trefniadau llywodraethu, atebolrwydd, cyllido a pherfformiad, a dod o hyd i ffyrdd o reoli'r gwahaniaethau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn yr Alban wedi mabwysiadu model lle mae trefniadau'n cael eu dirprwyo i drydydd corff, a elwir yn Gyd-fwrdd Integreiddio, drwy Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Cydweithio) (yr Alban) 2014. Mae'r Cyd-fyrddau Integreiddio'n gyfrifol am lywodraethu, cynllunio a chael gafael ar ofal cymdeithasol, gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, a gofal heb ei drefnu mewn ysbytai ar gyfer oedolion. Mae rhai hefyd wedi integreiddio gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys gwasanaethau plant, gwaith cymdeithasol, gwasanaethau cyfiawnder troseddol a'r holl wasanaethau ysbyty aciwt. Roedd adroddiad gan y Grŵp Strategol Gweinidogol ar Iechyd a Gofal Cymunedol (Llywodraeth yr Alban, Chwefror 2019)⁴⁹ yn adolygu'r cynnydd ar integreiddio iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn nodi bod Cyd-fyrddau Integreiddio'r Alban wedi cael trafferth dylanwadu ar y broses o bennu cyllidebau gan fod partneriaid yn amharod i roi'r gorau i reolaeth ariannol. Rhaid grymuso partneriaid i ddefnyddio eu holl adnoddau i wneud pethau'n wahanol. Nododd yr adroddiad fod yn rhaid i adnoddau ar y cyd a ddelir golli eu nod gwreiddiol a dod yn un gyllideb.

Fel y dangosodd yr adolygiad byr hwn, mae gwledydd eraill y DU yn parhau i gryfhau cysylltiadau cydweithredol, ond nid oes yr un wlad wedi dod o hyd i'r ateb. Yn yr un modd â Chymru, mae Lloegr a'r Alban wedi mabwysiadu dull partneriaeth, yn hytrach nag un strwythurol. Mae'r gwersi allweddol o'u cynnydd, y gellir eu cymhwyso i unrhyw drefniant partneriaeth, yn glir. Mae gan sefydliadau ofynion llywodraethu, atebolrwydd, cyllid a pherfformiad gwahanol, rhaid cydnabod hyn a rhaid i bartneriaid ddod o hyd i ffyrdd o reoli'r gwahaniaethau hyn er mwyn gwneud pethau'n wahanol. Dylai cynigion a nodir yn y papur hwn osgoi tarfu strwythurol lle nad oes angen ac yn hytrach dylai ganolbwyntio ar welliant strategol a fydd yn cryfhau'r trefniadau presennol i sicrhau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

49

[Health and Social Care integration: progress review – final report from the Ministerial Strategic Group for Health and Community Care \(Llywodraeth yr Alban, Chwefror 2019\):](#)

Cyflawni'r weledigaeth

Dyluniad

Yn seiliedig ar yr heriau a amlinellir yn adran y ddadl dros newid yn y papur hwn, mae tri maes allweddol yn dod i'r amlwg lle gallai camau gweithredu ychwanegol â ffocws gyflawni gwelliannau ar draws y system i sicrhau'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol:

- ailganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal – symud oddi wrth brisiau tuag at fesur gwerth yn seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth a'r gost yn gyffredinol;
- ailgyfeirio arferion comisiynu – rheoli'r farchnad a chanolbwyntio ar ganlyniadau; a
- datblygiad dulliau integreiddio – lleihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd.

Wrth lunio'r fframwaith cyfeirio hwn, rydym wedi defnyddio fframweithiau arweiniol pwysig. Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i ni sicrhau cydbwysedd rhwng y tymor byr a'r tymor hir ac, o ran cydweithio, i brofi a yw ein trefniadau yn ein helpu i gydweithio'n effeithiol. Mae egwyddorion dylunio *Cymru Iachach* yn gorfodi arweinwyr systemau iechyd a gofal cymdeithasol i "[ddatblygu] gwasanaethau sy'n llai cymhleth ac sydd wedi'u cydlynu'n well ar gyfer yr unigolyn; [pan ddylai fod] integreiddio proffesiynol agos, cydweithio, a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a darparwyr."

Drwy weithredu yn y tri maes a drafodir uchod, mae'r Papur Gwyn hwn yn ceisio ailgydbwyso'r farchnad gofal a chymorth ar sail fframwaith cenedlaethol clir lle caiff gwasanaethau eu trefnu'n rhanbarthol a'u darparu'n lleol. Wrth wneud hynny ein nod yw ailgydbwyso gofal cymdeithasol fel nad oes gorddibyniaeth ar y sector preifat, na monopoli i'r cyfeiriad arall. Mae'r papur Gwyn hwn yn diffinio 'ailgydbwyso' yn fras fel cyfres o ddisgrifiadau o'r newid yr ydym am ei weld yn y system.

Ailganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal

Ystyr ailgydbwyso yw...

Symud oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol...

... er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Darperir y rhan fwyaf o'r gofal a'r cymorth drwy strwythur marchnad o'r enw monopsoni⁵⁰. Mae strwythur y farchnad hon, yng nghyd-destun ariannol cyni, wedi golygu mai 'pris' yw'r brif nodwedd. Os mai'r weledigaeth yw gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau, nid strwythur y farchnad sy'n canolbwyntio ar brisiau ac sydd wedi esblygu dros amser yw'r llwybr at gyflawni hynny. Cydnabuwyd hyn ym Mhapur Gwyn diweddar Llywodraeth Cymru ar *Gryfhau*

⁵⁰ Ystyr monopsoni yw lle mae nifer fach o brynwyr a nifer fawr o ddarparwyr. Awdurdodau lleol yw'r prif brynwyr yn y farchnad gofal cymdeithasol; yng nghyd-destun caledi, mae strwythur y farchnad hon a chyllidebau dan bwysau wedi arwain at ostwng ffioedd a chostau.

*Partneriaethau Cymdeithasol*⁵¹, a oedd yn dweud bod ein hymateb i'r argyfwng economaidd a heriau cyni cronig yn y sector cyhoeddus yn y DU wedi rheoli a llywio cyfnod modern ein trefniadau partneriaeth gymdeithasol

Bydd gwerth am arian yn dal yn bwysig, a bydd angen i ofal a chymorth a gomisiynir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol barhau i ddangos eu bod yn defnyddio adnoddau trethdalwyr yn effeithlon. Mae gwerth am arian yn y cyd-destun hwn yn golygu darparu gwasanaethau effeithiol, am gost sy'n sicrhau canlyniadau cymdeithasol cryf⁵².

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn disgwyl i gomisiynwyr gwasanaethau ganolbwyntio ar bennu, sgorio a mesur yn erbyn gallu darparwyr i gyflawni canlyniadau lluosog yn erbyn y dyletswyddau cyffredinol a nodir yn y Ddeddf er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd a sicrhau llesiant, wedi'u cydbwysu yn erbyn gwerth am arian. Dylai comisiynwyr barhau i ddiffinio'r math o alluoedd a phrofiad sydd eu hangen ar sefydliadau tendro, a dylai timau caffael weithio gyda chomisiynwyr ar sut maent yn cynnwys hyn yn y broses asesu caffael⁵³.

Yn hollbwysig, bydd ailgydbwysu tuag at farchnad sy'n cymell ansawdd yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a'r holl gomisiynwyr lleol weithio gyda'i gilydd i gytuno ar fframwaith cyffredin a'i roi ar waith yn gadarn. Dylid defnyddio'r hyn a ddysgwyd o ddull Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru, sef canolbwyntio ar leoliadau o ansawdd sy'n fforddiadwy, wrth ddatblygu fframwaith arfaethedig.

Gall dulliau mwy safonol a rhagweladwy o bennu ffioedd leihau'r gystadleuaeth am staff rhwng darparwyr drwy wahaniaethau cyflog ymylol. Roedd y ddadl dros newid yn tynnu sylw at y berthynas rhwng cyflog, telerau ac amodau a throsiant staff a'r effaith ar ansawdd gwasanaethau yn sgil trosiant staff. Mae mwy o gysondeb yn y gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth a llai o drosiant yn caniatáu i bobl feithrin perthynas â'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth a theimlo'n ddiogel ac yn fwy sicr, gan wella ansawdd y canlyniadau o ran gofal cymdeithasol a llesiant. Felly, dylai disgwyliadau clir ar gyfer telerau ac amodau gwell, gan gynnwys tâl, fod yn rhan greiddiol o bennu'r methodolegau cyllido. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg⁵⁴ ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws gofal cymdeithasol. Mae gwaith teg yn golygu gweithlu mwy cynhyrchiol a hapusach, mwy o ymrwymiad ac ymgysylltiad, llai o absenoldeb a llai o drosiant staff⁵⁵.

⁵¹ [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol 2019](#)

⁵² [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol 2019](#)

⁵³ [Adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru – Helpu Comisiynwyr a Chaffaelwyr Gofal i hyrwyddo modelau gwerth cymdeithasol 2020](#)

⁵⁴ [Comisiwn gwaith teg – cylch gorchwyl](#)

⁵⁵ [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol 2019](#)

Ailgyfeirio arferion comisiynu

Ystyr ailgydbwysu yw...

...Symud oddi wrth gymhlethdod. Tuag at symleiddio.

Symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau

Symud oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad...

... er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Er bod y Ddeddf wedi helpu i ganolbwyntio ar sicrhau llesiant pobl, mae'r ddadl dros newid wedi dangos bod modd i arferion comisiynu ganolbwyntio ar dasgau o hyd. Roedd y broses o werthuso gweithrediad y Ddeddf yn nodi her sylweddol o ran trefnu a darparu gofal a chymorth oherwydd y diffyg cydlynu rhwng awdurdodau lleol gan arwain, o bosibl, at ddwy ar hugain o ffyrdd gwahanol o wneud pethau.

Yn hollbwysig, gydag amgylchedd sy'n ffafrio ansawdd, a lle mae caffael yn seiliedig ar ddull symlach o weithredu, bydd comisiynwyr yn rhydd i arloesi er mwyn cefnogi'r gwaith o greu'r modelau gofal newydd sydd eu hangen ar gyfer anghenion newidiol y boblogaeth. Felly, bydd arferion comisiynu'n symud oddi wrth reoli tasgau, a chaffael nifer o bethau bach a gweithgarwch rheoli cysylltiedig sy'n cymryd llawer o amser, tuag at gomisiynu sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol ac sy'n sicrhau llesiant i bobl. Wrth wneud hyn, mae comisiynwyr a chynllunwyr yn gallu datblygu holl rannau pwysig y cylch comisiynu⁵⁶, fel meithrin gallu, datblygu'r farchnad a marchnata perthnasoedd.

Bydd fframwaith cyffredin yn galluogi mwy o gydgomisiynu. Fel sail ar gyfer gweithio'n agosach mewn partneriaeth, gall sicrhau bod canlyniadau darparu gwasanaethau yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i bobl ac ar gynlluniau'r Economi Sylfaenol a gwerth cymdeithasol. Er nad oes un diffiniad o "werth cymdeithasol" y mae pawb yn cytuno arno, mae Social Enterprise UK yn diffinio gwerth cymdeithasol fel y budd ychwanegol i'r gymuned o broses gomisiynu/caffael sy'n ychwanegol at brynu nwyddau, gwasanaethau a chanlyniadau yn uniongyrchol. Ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, fe'i defnyddiwyd i greu ymadroddion fel "sefydliadau gwerth cymdeithasol" a "fforymau gwerth cymdeithasol", Mae'r ymadroddion hyn wedi dechrau cael eu defnyddio fel llaw-fer ar gyfer sefydliadau y cyfeirir atynt yn adran 16 Rhan 2 y Ddeddf, sy'n nodi modelau ar gyfer gofal a chymorth sy'n ceisio cyflawni egwyddorion y Ddeddf.

Mae modd gwneud cynnydd tuag at sylfaen fwy amrywiol o ddarparwyr a newid cydbwysedd y farchnad drwy gefnogi modelau gofal amgen. Bydd canolbwyntio ar gomisiynu gwerth cymdeithasol yn creu amgylchedd a fydd yn galluogi darparwyr dielw, gan gynnwys cydweithfeydd, i dyfu. Yr un pryd, bydd yn annog yr holl ddarparwyr i ddatblygu eu gallu i ddarparu gwerth cymdeithasol. Bydd y sector cyfan mewn gwell sefyllfa i gydweithio'n gyson effeithiol o gamau cynharaf asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso gofal a chymorth.

⁵⁶ Y [Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol – Arwain Comisiynu Integredig a Chydweithredol - Canllaw Arfer, Mawrth 2017](#)

Mae gan ddarparwyr hefyd lawer i'w ennill o'r dull newydd hwn o weithredu. Bydd cael gwared ar lawer o gymhlethdod yn galluogi darparwyr i ganolbwyntio mwy ar gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Roedd y ddadl dros newid yn disgrifio'r ystad gofal a chymorth fel un fawr ac amrywiol, yn cynnwys darparwyr preifat llai yn bennaf, gyda maint elw bychan a chronfeydd ariannol cyfyngedig. O fewn y trefniadau newydd hyn, bydd darparwyr bach yn cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd i ymateb i gomisiynau lleol. Gellid cyflawni hyn drwy ddatblygu dull gweithredu ar y cyd i alluogi gweithgareddau ar y cyd, fel marchnata, caffael, adnoddau dynol a chymorth TG. Bydd y dull hwn yn cyfrannu at ailgydbwysu'r farchnad gofal a chymorth i lai o ddarparwyr unigol sy'n cystadlu am gontractau, gan leihau cymhlethdod a gweithgarwch sy'n cymryd llawer o amser.

Datblygiad dulliau integreiddio

Ystyr ailgydbwysu yw...

... Symud oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth fwy effeithiol

...a'r cyfan er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Mae cyd-ddibyniaeth gofal cymdeithasol a gofal iechyd wrth galon Cymru lachach. I oedolion, mae'r angen am gyswllt agos rhwng y gwasanaethau hyn yn galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl ac mae'n hanfodol i atal ac ymyrryd yn fuan. Mae cydweithio agos yn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, ac mae'n hanfodol i lwyddiant y *Model Gofal* newydd ar gyfer *Rhyddhau i Adfer ac Asesu*.

Mae'r berthynas rhwng gofal cymdeithasol, y GIG, sefydliadau tai a'r sector addysg yn arbennig o bwysig er mwyn darparu gofal a chymorth cydlynus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar lefel ranbarthol, gall y partneriaid hyn ddefnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol i wella canlyniadau llesiant. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod â phartneriaid ynghyd â chynrychiolwyr dinasyddion, gofalcwyr a lleisiau pwysig eraill. Mae aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cydnabod y manteision sy'n deillio o'u partneriaeth ac maent yn dymuno adeiladu ar drefniadau comisiynu ar y cyd⁵⁷. Mae rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ategu partneriaethau rhanbarthol a lleol eraill, ac mae gwell cysondeb rhwng y partneriaethau hyn yn destun gwaith parhaus.

Roedd y ddadl dros newid yn dangos y cynnydd a wnaed gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a nifer o lwyddiannau. Roedd hefyd yn amlinellu meysydd lle mae cynnydd wedi bod yn fwy heriol, er enghraifft gofal preswyl i blant. Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf yn cyfeirio at seilwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n galw am weithredu â blaenoriaeth er mwyn hwyluso gweithio integredig yn well. Felly, cynigir cryfhau dyluniad presennol swyddogaethau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu galluogi i gyflawni'n effeithiol.

⁵⁷ [Adroddiad ar ddefnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gyllidebau cyfun ar gyfer llety cartrefi gofal gan KPMG 2020](#)

Mae'r dulliau o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio a fabwysiadwyd gan rannau eraill o'r DU er mwyn sicrhau cyswllt agosach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (er enghraifft, dirprwyo cyllidebau i drydydd parti lle mae rhai aelodau'n cael pwerau pleidleisio drwy Gyd-Fyrddau Integreiddio yn yr Alban) yn rhoi sail ar gyfer ystyried cryfderau a gwendidau gwahanol drefniadau posibl.

Dylai rôl sylfaenol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau fel dod â phartneriaid at ei gilydd i adolygu anghenion y boblogaeth ar y cyd a chynllunio'r modelau gofal a chymorth y bydd eu hangen ar bobl. Dylai dadansoddi a chynllunio ar y cyd, mewn meysydd lle mae angen i bartneriaid gysoni gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, arwain at gomisiynu darpariaeth ar y cyd. Wrth bwysu a mesur adroddiadau annibynnol ac adborth uniongyrchol gan y sector, er mwyn gwneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol, credwn fod angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol feddu ar offer ychwanegol i gysoni cynllunio a threfnu gwasanaethau yn well, a gallu sefydliadol gwirioneddol i gyflawni'r mandad hwn yn llawn.

Ei roi ar waith

Sut gallwn ni wneud hynny?

Mae angen cryfhau ac aildrefnu'r trefniadau presennol ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn ymateb i'r ystod o heriau sy'n wynebu'r sector, ac er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol a nodir yn y Ddeddf, gan gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae'r set ganlynol o gynigion yn dod o safbwynt meddylfryd systemau a dadansoddiad o'r diffygion yn y farchnad ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol a rhai cyfyngiadau yn y strwythurau partneriaeth presennol. Gall y newidiadau a argymhellir ail-lunio trefniadaeth gofal cymdeithasol yn llwyr ac er budd amlwg y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth. Cynigir cyflwyno deddfwriaeth i gyflawni'r newid angenrheidiol.

Gall fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i blant ac oedolion greu marchnad fwy cytbwys o ddarpariaeth o ansawdd gwell. Bydd y fframwaith yn helpu i sicrhau comisiynu gwerth cymdeithasol sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau, ac yn defnyddio'r holl asedau sydd ar gael mewn cymunedau lleol.

Gall fframwaith cenedlaethol fod yn llwyfan ar gyfer gweithredu argymhellion y Fforwm Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol ar draws y sector yng Nghymru. Bydd fframwaith cenedlaethol yn pennu methodolegau ffioedd, yn datblygu prosesau comisiynu mwy safonol, ac yn gwella tryloywder perfformiad gwasanaethau.

Byddai gwell cynllunio rhanbarthol a mwy o gydgomisiynu ar draws iechedd a gofal cymdeithasol ac ar draws rhanbarthau yn lleihau cymhlethdod a dyblygu ac yn gwella cysondeb a chapasiti. Byddai hyn yn galluogi comisiynwyr i ganolbwyntio o'r newydd ar ddiwallu anghenion newidiol y boblogaeth drwy lunio'r farchnad yn fwy cyfarwyddol.

Felly, cynigir bod dyfodol gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau yn cael ei drefnu drwy strwythur sy'n cynnwys fframwaith cenedlaethol, lle mae gofal a chymorth yn cael ei gynllunio'n rhanbarthol ac yn cael ei ddarparu'n lleol.

Bydd sefydliadau rhanbarthol cryfach yn golygu y bydd modd integreiddio gweithredu yn well ymhlith gofal cymdeithasol a'i bartneriaid, gan gynnwys gofal iechedd a'r sector gwirfoddol, ynghyd â addysg a thai. Byddai'r dull hwn yn cefnogi gofal cymdeithasol fel rhan o'r economi sylfaenol ac yn galluogi darpariaeth integredig yn well, er enghraifft drwy ddatblygu tai gyda gofal ochr yn ochr â hybiau cymunedol. Bydd hyn hefyd yn helpu i gynnal y ffocws ar wasanaethau ataliol a chyfleoedd i alinio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ogystal â mynd i'r afael â heriau presennol y sector, byddai'r cynigion yn darparu sylfaen well ar gyfer rhoi amcanion polisi tymor hir ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau gwell tâl, telerau ac amodau i'r gweithlu er mwyn helpu i leihau trosiant a gwella ansawdd gofal a sicrhau gweithlu mwy gwydn a dyhead tymor hir am system sy'n nes at egwyddor y GIG o ofal iechedd yn rhad ac am ddim pan fo'i angen.

Bydd hefyd yn galluogi'r sector i leihau ei effaith amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Nid yw

allyriadau carbon anuniongyrchol gan ddarparwyr gofal a chymorth yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, ond gellir lleihau allyriadau anuniongyrchol yn ddramatig drwy gaffael mwy effeithiol. Gellir sicrhau datgarboneiddio drwy ddisgwyliadau caffael cyson sy'n gofyn am safonau amgylcheddol uwch gan bob sefydliad sy'n darparu gofal a chymorth. Gall yr un dulliau sicrhau manteision sylfaenol i'r economi drwy anogaeth i gaffael nwyddau'n lleol.

Ailgydbwyso'r fframwaith cenedlaethol

Ni fwriedir trosglwyddo unrhyw swyddogaethau cyfredol o awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol i'w cyflawni'n genedlaethol. Cynigir bod fframwaith cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, sy'n pennu'r telerau ar gyfer comisiynu gwasanaethau i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth – drwy ddatblygu set o arferion comisiynu cyffredin ac amrywiaeth o fethodolegau ffioedd y bydd yn ofynnol i gomisiynwyr eu defnyddio yn ôl y gyfraith, gan symleiddio caffael a sicrhau bod safonau gwasanaeth yn fwy amlwg.

Nid yw hyn yn golygu y dylid cael un pris am ofal a chymorth sy'n cael ei gaffael, ond yn hytrach set o fethodolegau ffioedd y cytunwyd arni y bydd pob comisiynydd yn ei dilyn yn y dyfodol. Rhaid i fethodolegau ffioedd fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu amgylchiadau lleol, er enghraifft, ffactorau daearyddol gwahanol, a gallu ymateb i ofynion capasiti ac adnoddau darparwyr ar wahanol gamau yn eu cylch busnes eu hunain. Er enghraifft, bydd angen gwahanol lefelau o gymorth ar fodolau gofal newydd, yn enwedig lle mae buddsoddiad cyfalaf yn berthnasol.

Drwy'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdod lleol baratoi cynllun gofal a chymorth ar gyfer pobl y mae eu hanghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwyso, ar ôl iddynt gael asesiad o anghenion. Mae'r cynllun gofal a chymorth (neu'r cynllun cymorth ar gyfer gofalwyr) yn disgrifio sut bydd anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth yn cael eu diwallu, gan gynnwys rhoi manylion am y gwasanaethau sydd i'w trefnu neu eu darparu gan yr awdurdod lleol. Pan fydd y gwasanaethau yn y cynllun yn cael eu comisiynu gan y bwrdd iechyd lleol, cynigir y bydd y fframwaith cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu'r gwasanaethau hynny hefyd (er enghraifft Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG).

Er mwyn datblygu a chyflwyno fframwaith cenedlaethol, cynigir sefydlu 'swyddfa genedlaethol' ar gyfer gofal cymdeithasol naill ai drwy:

- ddatblygu swyddogaeth o fewn y llywodraeth, neu
- sefydlu corff hyd braich, dan arweiniad tîm gweithredol bychan.
-

Yn y ddau ddewis, sicrhau ymgysylltu llawn ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y sector annibynnol a phartneriaid allweddol eraill drwy fwrdd cynghori.

Bydd y swyddfa genedlaethol yn cadw golwg gyffredinol ar sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol, ac yn sail ar gyfer sbarduno mentrau polisi cenedlaethol. Bydd yn atgyfnerthu gweithgarwch rhai fforymau cenedlaethol, gan gynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a bydd yn gyfrifol am gefnogi gwaith ymchwil i ofal cymdeithasol a gwella gwasanaethau yng Nghymru.

Rhaid i lais y proffesiwn gofal cymdeithasol gael ei adlewyrchu'n llawn mewn trafodaethau cenedlaethol, fel bod polisi cenedlaethol a bennir gan y swyddfa genedlaethol yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o heriau darparu. Bydd swyddogaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol yn cael ei lleoli yn Llywodraeth Cymru i hyrwyddo llais y proffesiwn gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yn y Llywodraeth.

Cryfhau trefniadaeth ranbarthol

Mae'n ofynnol, drwy adran 14 o'r Ddeddf, i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddatblygu asesiadau o anghenion y boblogaeth, cynlluniau ardal ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Cyflawnir y swyddogaethau hyn drwy drefniadau partneriaeth a ddisgrifir yn Rhan 9 o'r Ddeddf ac adran 25 o Ddeddf Plant 2004, yn benodol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bwriedir i'r adroddiadau hyn helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynllunio a chomisiynu gofal a chymorth o ansawdd ar lefel strategol ar gyfer eu poblogaethau.

Yn ogystal, amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw:

- cynnal ac ymateb i'r asesiad poblogaeth a gynhelir yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf (a, phan gaiff ei gweithredu, paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad o dan adran 144B o'r Ddeddf);
- gweithredu'r cydgynlluniau ardal y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol eu paratoi a'u cyhoeddi o dan adran 14A o'r Ddeddf;
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau o dan adran 167 o'r Ddeddf; a
- hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar i ba raddau y mae amcanion y bwrdd wedi cael eu cyflawni'n flynyddol⁵⁸.

Mae'r papur hwn wedi awgrymu y dylid darparu set fwy manwl o adnoddau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w galluogi i gyflawni eu nodau craidd o asesu a chynllunio ar y cyd ar gyfer anghenion y boblogaeth. Cynigir y dylid cryfhau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy ddeddfu i'w sefydlu fel endidau cyfreithiol corfforaethol. Byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol cryfach sy'n gallu cyflogi staff a dal cyllidebau yn uniongyrchol yn gallu comisiynu iechyd a gofal ar y cyd yn fwy uniongyrchol lle mae partneriaid lleol yn cytuno y byddai hynny'n gwneud y mwyaf o adnoddau ac yn cael y budd mwyaf o ran sicrhau canlyniadau gwell.

Yn benodol, yn ogystal â'r swyddogaethau sydd eisoes wedi'u nodi yn y Ddeddf, bydd swyddogaethau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu hymestyn er mwyn iddynt wneud y canlynol:

- cael eu galluogi i gyflogi staff fel bod modd iddynt gyflawni eu swyddogaethau'n llawn (y bwriad yw rhoi hwb i gynllunio ar y cyd, ond gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn ffyrdd eraill);
- bod â threfniadau llywodraethu clir ar waith lle mae'r cyd-atebolrwydd dros benderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol mewn

⁵⁸ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 - Codau a chanllawiau: Rhan 9 Canllawiau Statudol \(Trefniadau Partneriaeth\)](#)

perthynas â chyfuno cyllidebau a chomisiynu ar y cyd yn dryloyw ac yn unol â'u cyfrifoldebau statudol;

- pennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer comisiynu a darparu rhanbarthol gan ddefnyddio gwybodaeth o'u hasesiadau o anghenion y boblogaeth, cynlluniau ardal ar y cyd ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad;
- cael eu galluogi i ddal cyllidebau integredig i ddarparu gwasanaethau rhanbarthol integredig;
- monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt, gan rannu data rhwng partneriaid lle bo hynny'n briodol;
- sefydlu fframwaith cynllunio a monitro perfformiad ym mhob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n mireinio'r cylch cynllunio strategol 5 mlynedd ac sy'n defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am y boblogaeth, y canlyniadau a'r farchnad.

Yn unol â'r camau gweithredu yn *Cymru Iachach*, byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn cael eu harchwilio a'u hadolygu ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ran effeithiolrwydd y gweithio ar y cyd, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, cyllidebau cyfun a chomisiynu ar y cyd.

Mae'r gofynion cynllunio presennol ar gyfer cylch hir o asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal yn fframwaith eang, ond nid yw bob amser yn adlewyrchu byd sy'n newid yn gyflym. Dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real er mwyn gallu dadansoddi anghenion a mesur effaith yn amlach. Dylid ailedrych ar gynlluniau pryd bynnag y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn yr amgylchedd gofal a chymorth. I gefnogi hyn, bwriedir defnyddio dull newydd o gynllunio ac adrodd. Bydd yn llai dwys, ond yn broses amlach o werthuso ac ymateb i anghenion y boblogaeth.

Dylai blaenoriaethau integreiddio rhanbarthol clir ddarparu ffocws ar gyfer gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dylai meysydd blaenoriaeth ddiffinio ble mai gweithredu ar y cyd yw'r ffordd orau o wella'r ddarpariaeth, a rhaid ystyried y meysydd hyn ar gyfer cydgomisiynu rhanbarthol.

Dylai partneriaid a rhanddeiliaid ystyried bod gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwbl dryloyw ac atebol. Gall y newidiadau a gynigir yn y papur fod yn sail ar gyfer cryfhau ymhellach drefniadau sy'n cefnogi atebolrwydd. Byddant yn galluogi adnoddau i gael eu dal yn y bartneriaeth, wedi'u goruchwyllo gan staff y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda threfniadau clir wedi'u creu ar gyfer adrodd yn llawn i'r sefydliadau sy'n aelodau.

Bydd hefyd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd i Weinidogion Cymru ar y cynnydd o ran cyflawni ar y cyd yn erbyn y blaenoriaethau integredig y cytunwyd arnynt. Ni ddylai fod twf yn y gofynion adrodd; yn hytrach, cynigir bod y gofynion adrodd yn cael eu symleiddio, a hynny'n cynnwys cyfuno'r gofynion cenedlaethol presennol fel rhan o'r broses o ystyried dyfodol cymorth cyllido cenedlaethol.

Rhaid i'r cynnig i gryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o'r dirwedd bresennol ar gyfer cydweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol weithio ochr yn ochr â threfniadau ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus swyddogaethau sy'n ategu'i gilydd. Yng nghyd-destun gofynion parhaus y ddeddfwriaeth berthnasol, dylai

rhanbarthau ac ardaloedd alinio'r partneriaethau hyn mewn ffordd sy'n gweithio orau yn eu hamgylchiadau nhw.

Nid yw'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn yn atal unrhyw ehangu ar swyddogaethau Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Gallai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn fecanwaith defnyddiol yn y dyfodol i alluogi cyflawni swyddogaethau gofal cymdeithasol strategol awdurdodau lleol yn fwy effeithiol ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Effaith ar gomisiynu gofal a chymorth gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol

Awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol fydd y prif gyrff comisiynu o hyd o ran gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dylid darparu gwasanaethau lleol mor agos â phosibl at bobl leol. Drwy leihau cymhlethdod, bydd fframwaith cenedlaethol yn cefnogi darpariaeth leol heb beryglu atebolrwydd. Ar sail y cynigion yn y papur hwn, yn y dyfodol bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn arfer eu swyddogaethau comisiynu un ai'n uniongyrchol neu'n eu dirprwyo i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ymgwymerir â gweithgareddau comisiynu yn unol â'r fframwaith cenedlaethol, gan sicrhau defnydd llawn a theg o fethodolegau'r fframwaith cenedlaethol.

Atodiad 1: Crynodeb o'r effeithiau

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi asesiad effaith integredig o'r cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a gynrychiolir yn y Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cael ei ddatblygu ac mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth i gyfrannu at yr asesiad hwnnw.

Wrth ddatblygu'r cynigion, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y 'pum ffordd o weithio' a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gofyn am ffocws ar y tymor hir ac, o ran cydweithio, i brofi a yw ein trefniadau yn ein helpu i gydweithio'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried egwyddorion dylunio *Cymru Iachach* i ddatblygu gwasanaethau sy'n llai cymhleth ac wedi'u cydlynu'n well ar gyfer yr unigolyn; lle dylid cael integreiddio proffesiynol agos, gweithio ar y cyd, a rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a darparwyr.

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys crynodeb o rai o effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar bobl, ar y gweithlu ac ar wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt

- Bydd cefnogi'r sector i ymateb i'r bwlch gweithredu yng nghyswllt gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl yng Nghymru. Roedd y papur hwn yn tynnu sylw at y profiadau amrywiol, a negyddol weithiau, a gaiff pobl o ran gofal a chymorth, sy'n effeithio ar y weledigaeth o sicrhau llesiant. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn nodi'r diffiniad o lesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant sydd i'w cyflawni. Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yng Nghymru, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchoddedig. Nod y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yw gwella gallu gwasanaethau i gyflawni'r swyddogaethau hyn fel bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn gallu sicrhau eu llesiant. Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ac mae'r effeithiau ar bobl yr un fath â'r cynigion yn y papur hwn. Nod y cynigion yw sicrhau bod yr effeithiau hynny'n cael eu gwireddu'n gyflymach. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'w weld yn y Memorandwm Esboniadol sydd ar gael isod: <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5664>
- Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw sefydlu mewn cyfraith hawliau a chyfrifoldebau pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Bydd y sector gofal cymdeithasol yn defnyddio'r datganiad llesiant i ddylunio a darparu gwasanaethau gyda phobl. Bydd hyn yn sbardun pwysig yn y symudiad tuag at ddull gweithredu sy'n rhoi pobl yn y canol, y canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni, a rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt. Mae adran y ddadl dros newid yn y papur hwn yn amlinellu sut mae angen newid er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Gweithiodd Llywodraeth Cymru

yn helaeth gyda phobl i ddatblygu'r datganiad llesiant. Mae'r dull ymgysylltu wedi'i nodi yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y fframwaith canlyniadau cenedlaethol⁵⁹.

Y gweithlu gofal cymdeithasol

- Roedd y ddadl dros newid yn tynnu sylw at y berthynas rhwng cyflog, telerau ac amodau a throsiant staff a'r effaith ar ansawdd gwasanaethau yn sgil trosiant staff. Mae mwy o gysondeb yn y gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth a llai o drosiant yn caniatáu i bobl feithrin perthynas â'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth a theimlo'n ddiogel ac yn fwy sicr, gan wella ansawdd y canlyniadau o ran gofal cymdeithasol a llesiant. Mae pobl yn fwy tebygol o weld yr un person, sy'n cynyddu eu gallu i gynnal perthnasoedd, ac yn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, gan arwain at ofal o ansawdd uwch. Byddai safoni a gwella cyflogau a telerau ac amodau, y gellid ei gyflawni drwy fframwaith cenedlaethol, yn cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:
 - Menywod. Mae'r gweithlu fel arfer yn heneiddio ac o'r un rhyw, gyda'r rhan fwyaf o staff darparwyr gofal a gomisiynir yn fenywod. Ar 5 Mawrth 2019, amlinellodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AC, weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, a ddywedai "...bod Cymru sy'n gyfartal rhwng y rhywiau yn golygu rhannu grym, adnoddau a dylanwad yn gyfartal i bob menyw, dyn a pherson anneuaid. Gweledigaeth yw hon lle mae'r llywodraeth yn ceisio creu'r amodau i sicrhau canlyniad cyfartal i bawb."
 - Denu pobl ifanc i ofal cymdeithasol. Mae dros hanner y gweithlu dros 40 oed⁶⁰. Efallai y bydd gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dymuno mynd i ofal cymdeithasol wrth adael yr ysgol, yn enwedig menywod, wrth iddynt gael lefel uwch o addysg ac yn wyneb mwy o gystadleuaeth o du sectorau eraill, megis manwerthu, lle mae cyflogau'n aml ychydig yn uwch am waith llai anodd a'r gofynion rheoleiddio o ran cymwysterau, er enghraifft, yn is.
 - Mae gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu gorgynrychioli yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac yn cyfrif am 7.2 y cant o'r gweithlu yng Nghymru⁶¹.

Gwasanaethau

- Mae safoni a symleiddio drwy fframwaith cenedlaethol yn cefnogi dull o wneud gwell defnydd o adnoddau cyfunol, ar draws ffiniau awdurdodau lleol, mewn ymateb i anghenion a chanlyniadau'r boblogaeth. Gall dileu rhywfaint o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd yn y broses gomisiynu ryddhau amser comisiynwyr i ddatblygu elfennau eraill o'r cylch comisiynu.
- Rhaid i fframwaith cenedlaethol sy'n nodi'r telerau ar gyfer comisiynu gofal a chymorth ystyried cyflogau, telerau ac amodau'r gweithlu. Bydd gwella cyflogau, telerau ac amodau yn rhannol yn adlewyrchu'r adnoddau cyffredinol sydd ar gael i'r

⁵⁹ [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol – asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb](#)

⁶⁰ [Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal cartref](#)

⁶¹ [/ Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Coronafeirws \(COVID-19\) a'r boblogaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig \(BAME\) yng Nghymru yng Nghymru](#)

sector ac, o bosibl, yn gweithredu penderfyniadau a wneir yn y dyfodol gan y Fforwm Gofal Cymdeithasol.

- Bydd cryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi cydgynllunio effeithiol a darparu gofal a chymorth lle bydd y capasiti cyfunol yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl, gan gefnogi cyrff statudol i gyflawni eu swyddogaethau presennol yn well.

Atodiad 2: Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar y cynigion. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn yr ymatebion i'r cwestiynau. Ceir crynodeb o'r cwestiynau isod.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau?

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael?

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur?

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau?

Cwestiwn 4a: - Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol?

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol?

Cwestiwn 5a- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal iechyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn?

Cwestiwn 5b- A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol?

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol?

Cwestiwn 6a- Os felly, pa rai?

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau?

Cwestiwn 7a- A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?

Cwestiwn 8a- O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?

Cwestiwn 9: A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid?

Cwestiwn 9a- beth ddylai'r rhain fod?

Cwestiwn 10: Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?

Cwestiwn 10a- A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?

Y Gymraeg

Cwestiwn 11: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 12: Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.